


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# DIGOLLEDU FFERMWYR AM DWBERCWLOSIS BUCHOL YNG NGHYMRU

Adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1PT

Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Argraffwyd ar bapur Greencoat.
Defnyddir 80% ffeibr ail-gylchedig a 20% virgin TCF pulp o goedwigoedd cynaliadwy i gynhyrchu papur Greencoat.
DG Cyf: 3235ve

ISBN 1-90-421914-4



# DIGOLLEDU FFERMWYR AM DWBERCWLOSIS BUCHOL YNG NGHYMRU

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol

Cymru, a gyflwynir i Gynulliad

Cenedlaethol Cymru ar

31 Gorffennaf 2003

**Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.**

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**18 Gorffennaf 2003**

**Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.**

**Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.**

**Roedd Gillian Body, Wayne Harris, Rob Powell a James Verity yn nhîm astudio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.**

**Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:**

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru**
**3-4 Plas-y-Parc**
**Caerdydd**
**CF10 3DP**

**Ffôn: 029 2067 8500**

**e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk**
**gillian.body@nao.gsi.gov.uk**
**Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm**

# CYNNWYS


**Crynodeb Gweithredol** 1

**Rhan 1: Cyflwyniad** 9

Y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r cyfrifoldeb i dalu'r iawndal yn dilyn o'r clefyd twbercwlosis buchol 9

Mae gwariant ar daliadau iawndal wedi cynyddu wyth gwaith yn ystod y pedair blynedd diwethaf 9

Archwiliwyd lefel y taliadau iawndal o'u cymharu â phrisiau'r farchnad, ac effeithiolrwydd y broses o brisio anifeiliaid 10

**Rhan 2: Mae twbercwlosis buchol yn broblem ddifrifol i ffermwyr, problem sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf** 13

Hanes a nifer yr achosion o'r clefyd 13

Nodi a thrafod anifeiliaid yr effeithir arnynt gan dwbercwlosis 14

Mae twbercwlosis buchol yn cael effaith ddifrifol ar ffermwyr 16

Caiff ffermwyr eu digolledu am werth yr anifail a laddwyd ar y farchnad 20

**Rhan 3: Mae iawndal am anifeiliaid a laddwyd yn fwy na gwerthoedd gwaelodol y farchnad** 23

Roedd prisiannau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol yn 2000 a 2002 yn sylweddol uwch na phrisiau gwaelodol y farchnad 23

Roedd prisiannau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid pedigri yn 2000 a 2002 yn sylweddol uwch na phrisiau gwaelodol y farchnad 24

Bu prisiannau cyfartalog yng Nghymru yn sylweddol uwch nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig 29

**Rhan 4: Mae pwysau chwyddiannol ar brisiannau, nad ydynt yn cael eu monitro'n effeithiol gan y Cynulliad** 31

Mae perygl y bydd sefyllfa anodd y rhai sy'n prisio anifeiliaid yn chwyddo prisiannau 31

Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn dibynnu ar brisiannau deuol i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses brisio 32

Nid yw'r Cynulliad yn monitro taliadau iawndal yn effeithiol 32

**Rhan 5: Mae gwersi o fannau eraill yn awgrymu bod cryn le i'r Cynulliad wella'r ffordd y mae'n rheoli'r broses brisio** 35

Dylai'r Cynulliad wneud llawer rhagor i sicrhau ei hun bod prisiannau'n rhesymol 35

Gallai'r Cynulliad wella ei reolaeth drwy ddysgu gwersi allweddol o'r diwydiant yswiriant da byw a Gogledd Iwerddon 35

Rheolir lefelau iawndal am dwbercwlosis mewn gwledydd eraill, ac yn y Deyrnas Unedig am glefydau eraill, mewn sawl ffordd 38

## Atodiadau


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Canfyddiadau allweddol adroddiadau diweddar ar argyfwng clwy'r traed a'r genau gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | 40 |
| 2 | Methodoleg a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 41 |
| 3 | Ein methodoleg ar gyfer cyfrifo prisiau gwaelodol y farchnad | 45 |
| 4 | Cymhariaeth ranbarthol o lefelau iawndal 2000 a 2002 | 48 |
| 5 | Cymhariaeth o lefelau iawndal 2000 a 2002 a phrisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid masnachol | 49 |
| 6 | Cymhariaeth o lefelau iawndal 2000 a 2002 a phrisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid pedigri | 50 |
| 7 | Rhestr termau | 51 |


Darperir pob ffotograff drwy garedigrwydd Huw John, ac eithrio ffotograff y rhosédi ar dudalen 24 a atgynhyrchir drwy garedigrwydd Cylchgrawn Holstein.



## Trosolwg lefel uchel o'r adroddiad

Mae twbercwlosis buchol yn broblem ddifrifol i ffermwyr, sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf **(Rhan 2)**.





Mae iawndal am anifeiliaid a leddir oherwydd twbercwlosis buchol yn seiliedig ar werth yr anifail ar y farchnad. Mae lefelau iawndal cyfartalog yn uwch na gwerthoedd gwaelodol yng Nghymru farchnad **(Rhan 3)**.



Mae pwysau chwyddiannol yn gysylltiedig â'r trefniadau prisio presennol, a arweiniodd at ddatblygiad marchnad eilaidd ar wahân ar gyfer anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt gan dwbercwlosis buchol. Mae'r farchnad hon yn gysylltiedig â'r farchnad sylfaenol ar gyfer anifeiliaid iach ond mae'n gweithredu'n annibynnol arni. Nid yw'r Cynulliad yn monitro lefelau prisiannau'n effeithiol **(Rhan 4)**.



Yn ôl y gwersi o fannau eraill mae cryn le i'r Cynulliad wella'r ffordd y mae'n rheoli'r broses brisio. Prif ffynonellau'r gwersi hyn yw Gogledd Iwerddon, y diwydiant yswiriant da byw a'r trefniadau mewn mannau eraill ar gyfer digolledu ffermwyr **(Rhan 5)**.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cyflwyniad

1 Mae twbercwlosis buchol yn glefyd heintus iawn sy'n effeithio ar wartheg. Dyma'r clefyd mwyaf hysbys o'r tri chlefyd hysbysadwy y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn gyfrifol amdanynt. Mae nifer yr achosion o dwbercwlosis buchol yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd cyfartalog blynyddol o 29 y cant o ran achosion newydd a gadarnhawyd rhwng 1996 a 2002. Y prif ardaloedd yr effeithir arnynt yw rhannau o dde-ddwyrain a de-orllewin Cymru. Yn 2002, lladdwyd ychydig o dan 5,000 o anifeiliaid yng Nghymru oherwydd twbercwlosis buchol.

2 Mae'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, sy'n rhan o Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yn gyfrifol am reolaeth filfeddygol weithredol o dwbercwlosis buchol yng Nghymru, gan weithredu o dan goncordat y cytunwyd arno gyda'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r cydberthnasau a'r cyfrifoldebau rhwng y Cynulliad, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a Defra yn gymhleth ac yn gyd-ddibynnol - nid yng Nghymru yn unig y ceir twbercwlosis buchol a gall groesi ffiniau mewnol yn hawdd, a'r Deyrnas Unedig, fel yr Aelod-wladwriaeth, sy'n gorfod cydymffurfio â chyfarwyddebau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd.

3 Nodir twbercwlosis buchol drwy brofi pob buches yn rheolaidd o dan gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd. Pan fydd profion anifeiliaid yn gadarnhaol neu pan amheuir bod twbercwlosis arnynt, mae buchesi yn ddarostyngedig i gyfyngiadau o ran eu symud er mwyn rheoli lledaeniad y clefyd. Ar ddiwedd 2002, roedd 779 o berchenogion buchesi yng Nghymru yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ar symud eu hanifeiliaid oherwydd twbercwlosis buchol.

4 Mae'n orfodol lladd anifeiliaid y mae eu prawf am dwbercwlosis buchol yn gadarnhaol. Ers Awst 1998, cafodd ffermwyr iawndal yn seiliedig ar werth llawn yr anifail ar y farchnad ar ddiwrnod y prisiant, gan gymryd ei fod yn iach. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff anifeiliaid eu prisio gan un prisiwr a enwebir gan y ffermwyr, neu gan ddau brisiwr (enwebir yr ail gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol). Ambell waith mae swyddogion milfeddygol gwladol yn prisio nifer fach o anifeiliaid. Mae'r Cynulliad yn gwneud taliadau iawndal i ffermwyr yn seiliedig ar y prisiannau hyn. Rhwng 1998-99 a 2002-03, cynyddodd cyfanswm cost iawndal i ffermwyr am dwbercwlosis buchol wyth gwaith, i ychydig dros £8 miliwn. Cynyddodd taliadau iawndal cyfartalog ar gyfer pob anifail a laddwyd yng Nghymru 82 y cant rhwng 1999 a 2002.

5 Mae argyfwng diweddar clwy'r traed a'r genau yn 2001 wedi codi proffil taliadau iawndal am glefydau hysbysadwy. Mynegodd adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (The 2001 outbreak of foot and mouth disease, Sesiwn 2001-02 HC 939) ac adroddiad dilynol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (The 2001 outbreak of foot and mouth disease, pumed adroddiad sesiwn 2002-03, HC 487) ar yr argyfwng bryder ynglŷn a'r ffaith bod taliadau iawndal cyfartalog ar gyfer gwartheg wedi treblu yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. Mynegwyd pryderon eraill am y broses o brisio anifeiliaid at ddibenion iawndal a digonolrwydd rheolaethau Defra. Bydd swyddogion Defra yn dechrau ymgynghori ar resymoli iawndal am bob clefyd hysbysadwy, gan gynnwys twbercwlosis, yn ddiweddarach yn 2003.

6 Ymatebodd swyddogion y Cynulliad i'r codiad sydyn a diweddar mewn iawndal a dalwyd ynghylch twbercwlosis buchol a mynegwyd pryder ynglŷn â'r adeiladwaith gweinyddol gwaelodol. Yn gyfochrog â gweithgareddau i adolygu gweithredu trefniadau iawndal ar gyfer pob rhywogaeth a haint, i anelu adnoddau ychwanegol at y problem ac i adolygu trefniadau yn gweithredu yn rhywle arall. Ymgeisiodd swyddogion y Cynulliad am archwiliad annibynnol i hyn, a chytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymgymryd ag ef. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r adroddiad hwn yn archwilio:

- effaith twbercwlosis buchol ar ffermwyr, a'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer eu digolledu am anifeiliaid a laddwyd;
- p'un a oedd taliadau iawndal am dwbercwlosis buchol yn gyson â'r polisi o adlewyrchu gwerthoedd gwaelodol y farchnad; a
- p'un a yw'r Cynulliad yn rheoli'r broses brisio yn effeithiol.

## Crynodeb o'r Canfyddiadau

### Effaith twbercwlosis buchol ar ffermwyr

7 Mae twbercwlosis buchol yn cael cryn effaith ar ffermwyr, yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid. Pan gadarnheir achos o dwbercwlosis y cyfnod lleiaf y bydd cyfyngiadau ar symud anifeiliaid yn parhau yw 120 diwrnod. Ar draws Prydain Fawr, cynyddodd cyfnod y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ar gyfer achosion newydd a gadarnhawyd o ychydig dros 200 diwrnod i 350 diwrnod ar gyfartaledd o ganlyniad i'r ôl-groniad o brofion twbercwlosis yn sgîl argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001.

8 O ganlyniad i gyfyngiadau ar symud anifeiliaid, cafodd ffermydd golledion canlyniadol, a oedd yn gyffredinol yn fwy na gwerth yr anifeiliaid a laddwyd ar y farchnad. Amcangyfrifodd un o undebau'r amaethwyr yn ddiweddar fod achosion o dwbercwlosis yn costio £36,000 ar gyfartaledd i fferm. Gall effeithiau eraill ar ffermydd o ganlyniad i dwbercwlosis gynnwys: problemau o ran lle i gadw anifeiliaid a lles pob anifail ar y fferm, sy'n codi o gadw gormod o anifeiliaid a all ddeillio o gyfyngiadau ar symud anifeiliaid; a chostau personol i ffermwyr o ran ansicrwydd ynghylch parhad y cyfyngiadau, anhawster i lunio cynllun busnes a'r trawma emosiynol o golli anifeiliaid. Disgrifiodd ffermwyr hefyd deimladau o rwystredigaeth fawr ynglŷn â cholli eu hanifeiliaid pan na welon nhw ddigon (yn eu barn hwy) yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi lledaeniad twbercwlosis buchol yn eu barn hwy, sef moch daear.

9 Mae gan lawer o ffermydd yswiriant rhag colledion canlyniadol yn deillio o dwbercwlosis buchol. Mae yswiriant o'r fath fel arfer yn helpu i wrthbwyso colledion canlyniadol y ffermwyr yn hytrach na'u talu'n llawn. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o dwbercwlosis buchol wedi effeithio ar argaeledd a fforddiadwyedd yswiriant rhag twbercwlosis buchol.

## Y berthynas rhwng lefelau iawndal a gwerthoedd gwaelodol y farchnad

10 Fel arfer mae iawndal yn seiliedig ar dystysgrif gwerth anifail ar y farchnad gan brisiwr proffesiynol, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Cymharwyd y lefelau iawndal a dalwyd gan y Cynulliad mewn perthynas â thwbercwlosis buchol ag ystod o ddangosyddion o brisiau gwaelodol y farchnad. (Defnyddiwyd ystod o wahanol ddangosyddion am nad oedd yr un dangosydd penodol, am amryw o resymau, yn union gymaradwy â thaliadau iawndal cyfartalog). Canolbwyntiodd ein dadansoddiad o daliadau iawndal cyfartalog ar anifeiliaid a brofwyd yn 2000 a 2002, gan fod 2001 yn flwyddyn anarferol oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau. Gwnaethom ddadansoddiadau ar wahân o anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri (mae anifail masnachol yn anifail nas cofrestrwyd gyda chymdeithas bedigri), gan fod gwerthoedd uwch gan yr olaf ar y cyfan.

11 Yn 2000 a 2002 ac ar gyfer anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri fel ei gilydd, nodwyd gwahaniaeth amlwg rhwng y lefelau iawndal cyfartalog a phob un o'n dangosyddion o bris gwaelodol y farchnad. Yn 2002:

- £1,164 oedd y taliad iawndal cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol. Roedd ein data cymharol ar y farchnad yn amrywio o £512 i £743; ac
- £2,641 oedd y taliad iawndal cyfartalog ar gyfer anifeiliaid pedigri. Roedd ein data cymharol ar y farchnad yn amrywio o £1,220 i £1,654.

12 Ar y sail hon, amcangyfrifwn fod iawndal, yn 2002, o leiaf 50 y cant yn uwch na phrisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri. Mae rhai o'n dangosyddion o bris gwaelodol y farchnad yn awgrymu bod y gwahaniaeth dros 100 y cant. O ganlyniad, amcangyfrifwn fod y Cynulliad, yn 2002, wedi talu tua £2.6 miliwn mewn taliadau iawndal yn fwy nag y byddai wedi'i wneud pe bai'r prisiannau wedi bod yn gyson â gwerthoedd y farchnad.

13 Roedd y gwahaniaeth hwn rhwng taliadau iawndal cyfartalog a gwerthoedd gwaelodol y farchnad yn fwy nodedig yn 2002 na 2000. Efallai mai'r rheswm yn rhannol dros y cynnydd cymharol hwn mewn taliadau iawndal oedd y penderfyniad i gyflwyno'r "cerdyn safon" yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau (pris penodol am anifeiliaid a laddwyd).

14 Gan roi enghreifftiau cymharwyd y taliadau iawndal cyfartalog yng Nghymru hefyd â thaliadau yng Ngogledd Iwerddon a Dyfnaint - mae gan y ddwy ardal hon lefelau uchel o dwbercwlosis buchol. Canfuom fod y taliadau iawndal cyfartalog yng Nghymru 54 y cant yn uwch na'r taliadau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol yng Ngogledd Iwerddon, a 26 y cant yn uwch ar gyfer anifeiliaid pedigri. Roedd y cyfartaledd ar gyfer pob anifail yng Nghymru 27 y cant yn uwch nag yr oedd yn Nyfnaint (lle nad oedd data ar gael a oedd yn gwahaniaethu rhwng anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri).

## Y ffordd y rheolodd y Cynulliad y trefniadau presennol ar gyfer prisio anifeiliaid

15 Er gwaethaf y gwariant o dros £8 miliwn a ragwelwyd yn 2002-03, nid oes gan y Cynulliad unrhyw broses ffurfiol o fonitro taliadau iawndal cyfartalog. Mae'r diffygion yn y systemau gwybodaeth a ddefnyddir gan bob un o swyddfeydd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol i gofnodi taliadau iawndal unigol yn gwaethygu'r sefyllfa hon, ac mae'n golygu nad oes gan y Cynulliad y cyfleuster i fonitro patrymau a thueddiadau mewn lefelau iawndal cyfartalog. Er bod y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol wedi cyflwyno taenlen cyfrifon well i gofnodi taliadau iawndal ym mis Ionawr 2003, erys gwendidau cynhenid o hyd.

16 Nid yw'r Cynulliad yn gwneud digon i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau presennol ar gyfer prisio anifeiliaid. Nid yw'n bosibl penderfynu yr union effaith y mae'r risgiau hyn sydd wedi dod i'r amlwg wedi ei gael ar lefelau iawndal cyfartalog. Sut bynnag, mae'r ffordd y mae'r system yn gweithredu yn golygu, i bob diben, bod marchnad ar wahân wedi datblygu ar gyfer iawndal twbercwlosis, yn gysylltiedig â'r farchnad anifeiliaid iach sy'n gweithredu'n annibynnol arni. Mae hyn yn golygu y gall "pris teg" yn yr farchnad eilaidd hon fod yn uwch na'r pris yn y farchnad sylfaenol ar gyfer anifeiliaid iach.

17 Mae gan y farchnad hon ei deinameg ei hun. Mae'r amgylchiadau yn wahanol i'r farchnad real-nid yw ffermwyr eisiau gwerthu anifeiliaid, tra bo'r prynwr, y Cynulliad, yn awyddus iawn i brynu'r anifeiliaid er mwyn hwyluso'r broses o reoli'r clefyd yn effeithiol. Mae hyn yn rhoi'r gwerthwr mewn sefyllfa gryf iawn a gall y rhai sy'n prisio, boed yn swyddogion milfeddygol neu'n briswyr preifat, fod mewn sefyllfa anodd am y rhesymau canlynol:

- prif swyddogaeth swyddogion milfeddygol yw rheoli clefydau - o ganlyniad efallai y bydd pwysau arnynt i gynnwys ychydig o iawndal ychwanegol os yw hyn yn ei gwneud yn haws i waredu'r anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt yn gynt;

- dewisir priswyr gan ffermwyr i weithredu ar eu rhan, yn aml am eu bod yn prynu a gwerthu anifeiliaid iach drwy farchnad y prisiwr. Felly mae ffermwyr yn disgwyl i'r prisiwr a enwebwyd ganddynt weithredu ar ffeithiau'r farchnad a wynebant, ac mae llawer yn mynd â'u busnes i rywle arall os na fydd y prisiwr yn gwneud hynny. Mae'n bosibl yr effeithir ar fusnesau priswyr hefyd mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion o dwbercwlosis - gall gwaith prisio anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt ddenu busnes newydd; ac

- mae prisiannau yn y farchnad eilaidd yn gosod meincnod neu isafswm pris ar gyfer prisiannau eraill yn yr ardal; gall proses o'r fath arwain at gynnydd graddol mewn prisiannau o gymharu â gwerthoedd gwaelodol y farchnad gan roi mwy o bwysau ar y rhai sy'n prisio anifeiliaid.



Fel canlyniad, mae effaith gydgasgledig penderfyniadau unigol y rhai sy'n cyflawni prisiadau yn greadigaeth marchnad eilaidd am dda sy'n dioddef o'r haint sydd yn gysylltiedig dim ond yn rhannol i'r farchnad am anifeiliaid iach.

18 Mae'r Cynulliad yn dibynnu ar brisio deuol fel ei brif ddull o reoli prisiannau. Er y gwneir mwy o ddefnydd ohono bellach (gan adlewyrchu'r pryder am brisiannau cynyddol), dim ond mewn 44 y cant o brisiannau yn 2002 y defnyddiwyd prisio deuol. Ymddengys fod prisio deuol yn fwy effeithiol lle na ddaw'r ail brisiwr o'r ardal leol ac felly mae'n fwy annibynnol. Ar wahân i'r arfer hwn, ac ambell gais ysgrifenedig i briswyr gyfiawnhau prisiannau unigol, nid oes gan y Cynulliad unrhyw reolaeth dros y rhai sy'n prisio anifeiliaid ar ei ran. Ni chaiff y Cynulliad fawr o gyswllt â'r priswyr proffesiynol a ddarparodd werth ychydig o dan chwarter miliwn o bunnau o wasanaethau yn 2002-03.

19 Archwiliwyd trefniadau gennym yng Ngogledd Iwerddon, lle roedd y lefelau iawndal yn is, ac yn y diwydiant yswiriant da byw. Yn y ddwy enghraifft cafwyd gwersi y gallai'r Cynulliad ddysgu ohonynt o ran rheoli costau iawndal am dwbercwlosis buchol. Yn y ddau achos, roedd gan y sefydliadau y siaradasom â hwy reolaethau llawer cryfach dros ddewis pwy sy'n prisio anifeiliaid, ynghyd â throthwyon neu gerrig milltir ar gyfer prisiannau, yr oedd yn ofynnol i briswyr roi cyfiawnhad manwl os oedd eu prisiant yn uwch na hwy. Archwiliwyd hefyd y dulliau a ddefnyddiwyd mewn gwledydd eraill i reoli cost iawndal am dwbercwlosis buchol, yn ogystal ag yn y Deyrnas Unedig am glefydau hysbysadwy eraill.





# Argymhellion

20 Er mwyn cyflawni ei amcan o ddigolledu ffermwyr yn ôl prisiant y farchnad sylfaenol ar gyfer anifeiliaid iach argymhellwn y dylai'r Cynulliad, gan weithio mewn partneriaeth â Defra fel y bo'n briodol:

## Er mwyn gwella'r ffordd y caiff prisiannau eu rheoli:

i cyflwyno fframwaith sicrwydd ansawdd ar gyfer cyflenwyr gwasanaethau prisio, er enghraifft, panel o briswyr achrededig yn seiliedig ar feini prawf cymwysterau a pherfformiad a phroses graffu allanol gan swyddog monitro priswyr annibynnol; dylai'r trefniadau gynnwys cosbau, ar raddfa sy'n esgyn hyd at ddileu aelodaeth o'r panel o dan amgylchiadau priodol;

ii cyflwyno trothwy y bydd yn ofynnol i briswyr roi cyfiawnhad manylach o werth yr anifail ar y farchnad os bydd eu prisiant yn uwch nag ef;

iii gorfodi ffermwyr i ddatgelu anfonebau gwerthiant os daethpwyd â'r anifail dan sylw ar y fferm o fewn deuddeg mis i'r prisiant, yn amodol ar drefniadau gwrth-dwyll;

iv tynhau rheolaethau dros brisiannau pedigri drwy gasglu mwy o wybodaeth (megis tystysgrifau pedigri anifeiliaid), gan gydlynu mwy â'r prif gymdeithasau pedigri a defnyddio priswyr arbenigol o gymdeithasau bridio lle y bo'n briodol;

v gwneud dadansoddiad cost a budd ac ymgynghori â'r diwydiant ynglŷn â chyflwyno swyddogion prisio a gyflogir gan y Cynulliad, megis y rhai sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o brisiannau yng Ngogledd Iwerddon; ac

vi ystyried costau a buddiannau cyflwyno gofyniad ar ffermwyr i ddatgelu ymlaen llaw uchafswm gwerth eu hanifeiliaid ar y farchnad mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion o dwbercwlosis os yw'r uchafswm yn uwch na throthwy penodol.

## Er mwyn gwell cyfathrebu:

vii gwella cyfathrebu am brisiannau rhwng y Cynulliad a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol ymhellach ar bob lefel;

viii rhoi cyfarwyddiadau mwy manwl a phenodol am ofynion y Cynulliad ar y priswyr y mae'n eu penodi, gan gynnwys eu cyfrifoldeb i'r trethdalwr; a

ix cyflwyno cyfarfodydd rheolaidd â phriswyr sy'n gweithio ar ran y Cynulliad, er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol - gan gynnwys gwerthoedd y farchnad a lefelau iawndal o bosibl - ac arfer gorau.

## Er mwyn monitro lefelau prisio:

x gweithio gyda Defra i wella'r systemau gwybodaeth a ddefnyddir i weinyddu a chofnodi taliadau iawndal am dwbercwlosis buchol yn sylweddol ac ar fyrder. Dylai'r system a fyddai'n deillio o hynny fod yn gysylltiedig â'r wybodaeth filfeddygol am brofi ar gyfer clefydau a nifer yr achosion, cael ei gweithredu ledled Cymru a chael ei rhannu rhwng y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda digon o wybodaeth am bob anifail y mae'r Cynulliad wedi talu iawndal amdano er mwyn ei alluogi i wneud gwaith monitro o bell o ansawdd uchel ar lefelau prisio; a

xi dechrau gweithdrefnau a phrotocolau monitro gyda'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol er mwyn sicrhau y caiff y lefelau iawndal eu monitro'n rheolaidd.

## Sylwadau i gloi

21 Gall achosion o dwbercwlosis buchol gael effaith ddifrifol, drychinebus bron ar ffermydd. Yn wahanol i glwy'r traed a'r genau, er enghraifft, lle mae anifeiliaid yr amheuir eu bod yn dioddef o'r clefyd yn cael eu lladd yn gyflym gan alluogi i rai eraill gael eu prynu yn eu lle, mae'r cyfyngiadau ar symud gwartheg sy'n gysylltiedig ag achosion o dwbercwlosis buchol yn golygu bod effeithiau'r clefyd yn tueddu i barhau am gyfnod llawer hwy. Gwneir ymchwil ar hyn o bryd i ganfod achos y clefyd ymhlith gwartheg (mae ffermwyr yn gryf o'r farn mai moch daear sy'n gyfrifol), ond ni ddisgwylir i'r ymchwil hon gael ei chwblhau cyn 2006. Yn y cyfamser, mae'r rhwystredigaeth a'r diymadferthwch a deimla ffermwyr yr effeithir arnynt, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion o dwbercwlosis buchol, yn ddealladwy.

22 Eto i gyd, yn ôl y gyfraith dylai ffermwyr gael eu digolledu am wartheg a leddir oherwydd twbercwlosis hyd at werth yr anifail ar y farchnad. Mae ein dadansoddiad o daliadau iawndal yn 2002 yn dystiolaeth glir eu bod yn sylweddol uwch na phrisiau gwaelodol y farchnad oherwydd datblygiad marchnad eilaidd. Hyd yma nid yw'r Cynulliad, ynghyd â'i asiantau a' i bartneriaid, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, wedi gwneud llawer i fynd i'r afael â'r broblem hon. Gan fod taliadau iawndal bellach yn £8 miliwn y flwyddyn ac ar gynnydd, pe bai'r Cynulliad yn rhoi sylw manwl i'r risgiau a nodwyd, ac yn cael mwy o afael ar y broses brisio, gallai arbed tua £2.6 miliwn y flwyddyn i'r Cynulliad, yn ôl ein hamcangyfrif, tra'n parhau i ddigolledu ffermwyr am werth llawn yr anifeiliaid a gollwyd ar y farchnad sylfaenol.



# RHAN 1 Cyflwyniad

## Y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r cyfrifoldeb i dalu'r iawndal yn dilyn o'r clefyd twberwlosis buchol


1.1 Mae twbercwlosis buchol yn glefyd heintus a chyffwrdd-ymledol sy'n effeithio ar dda a achosir gan y bacteriwm *Mycobacterium bovis* (M.bovis). Mae'n gyflwr llidiol sy'n arwain at anafiadau i sawl organ a'i nodau lymff cysylltiedig. Gall pobl ddal twbercwlosis drwy yfed a bwyta llaeth a chynnyrch llaeth, er yr ystyrir bod y risg yn isel yn y Deyrnas Unedig oherwydd y broses o basteureiddio llaeth, brechu plant ac archwilio cig yn rheolaidd ynghyd â'r nifer gymharol fach o achosion o'r haint o fewn y fuches genedlaethol.

1.2 Twbercwlosis yw'r clefyd mwyaf hysbys o'r tri chlefyd "hysbysadwy" - y ddau arall yw brwselosis a robin y gyrrwr - y datganolwyd cyfrifoldeb drostynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), fel y'i datganolwyd i'r Swyddfa Gymreig cyn sefydlu'r Cynulliad. Er bod gan y Cynulliad gyfrifoldeb llawn dros bolisi rheoli clefydau yng Nghymru, fel yn Lloegr y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, sy'n rhan o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) sydd â'r cyfrifoldeb gweithredol a milfeddygol. Mae'r Gwasanaeth yn cyflawni ei swyddogaethau yng Nghymru o dan delerau concordat y cytunwyd arno â'r Cynulliad. Mae gan y Gwasanaeth dair swyddfa yng Nghymru, un yng Nghaerdydd, un yng Nghaerfyrddin ac un yng Nghaernarfon, sy'n cwmpasu De, Gorllewin a Gogledd Cymru yn y drefn honno **(gweler Ffigur 1 isod)**.

1.3 Mae'r Deyrnas Unedig yn un uned epidemiolegol - nid yng Nghymru yn unig y ceir twbercwlosis buchol a gall groesi ffiniau mewnol yn hawdd (gweler Ffigur 4). Fel yr Aelod-wladwriaeth berthnasol mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig gydymffurfio â chyfarwyddebau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, mae cydberthynas gymhleth, sy'n datblygu o hyd, rhwng y Cynulliad a Defra yn rheoli'r ymagwedd strategol tuag at fynd i'r afael â thwbercwlosis buchol a materion eraill sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Er enghraifft, er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu pennu ei pholisi ei hun ar dwbercwlosis buchol yn ymarferol, y mae'r clefyd yn anadnabyddus o unrhyw terfyn, ni fyddai'n synhwyrol mabwysiadu ymagwedd wahanol iawn yng Nghymru. Yn ogystal, er bod pawb yn

**Ffigur 1**

**Meysydd a gwmpesir gan dair swyddfa'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

gweithredu mewn partneriaeth, nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol dros agweddau penodol ar ymagwedd Defra tuag at dwbercwlosis buchol, megis gwaith ymchwil a datblygu a rheoli clefydau. O ganlyniad, mae'r materion a nodwyd yn yr adroddiad a'r argymhellion sy'n deillio ohono yn gofyn am ymagwedd bartneriaeth effeithiol ar ran y Cynulliad a Defra.


## Mae gwariant ar daliadau iawndal wedi cynyddu wyth gwaith yn ystod y pedair blynedd diwethaf

1.4 Fel mesur i reoli'r clefyd, caiff anifeiliaid sy'n dioddef o dwbercwlosis neu yr amheuir eu bod yn dioddef o'r clefyd eu lladd yn orfodol gan y Cynulliad. O dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid (1981), caiff ffermwyr iawndal am anifeiliaid a laddwyd oherwydd ystod o glefydau "hysbysadwy", gan gynnwys twbercwlosis. Ers Awst 1998 bu iawndal yn seiliedig ar werth llawn yr anifail ar y farchnad, yn hytrach na'r raddfa sefydlog a oedd yn bodoli cyn hyn. Yn 2002-03, talodd y Cynulliad ychydig dros £8 miliwn o iawndal

i ffermwyr y lladdwyd eu gwartheg oherwydd twbercwlosis[1], cynnydd sylweddol ar y lefelau a dalwyd mewn blynyddoedd blaenorol - **Ffigur 2.** Achoswyd y cynnydd hwn gan gyfuniad o ddau ffactor: cynnydd yn nifer yr achosion o'r clefyd, a chynnydd yng nghyfartaledd yr iawndal a delir am bob anifail a laddwyd, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers argyfwng clwy'r traed a'r genau 2001.

**Ffigur 2**

**Cost iawndal am diwberciwlosis buchol yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru Is-adran Iechyd Anifeiliaid*

## Archwiliwyd lefel y taliadau iawndal o'u cymharu â phrisiau'r farchnad, ac effeithiolrwydd y broses o brisio anifeiliaid

1.5 Oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau yn y Deyrnas Unedig yn 2001 mae iawndal i ffermwyr am anifeiliaid a laddwyd wedi dod yn bwnc llosg. Er y rhoddwyd gweithdrefnau arbennig ar waith i ymladd argyfwng clwy'r traed a'r genau, mae'r sail ar gyfer digolledu ffermwyr am glwy'r traed a'r genau yn debyg i'r sail ar gyfer twbercwlosis. Mynegodd adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (The 2001 outbreak of foot and mouth disease, Sesiwn 2001-02 HC 939) ac adroddiad dilynol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (The 2001 outbreak of foot and mouth disease, pumed adroddiad sesiwn 2002-03, HC 487) ar yr argyfwng bryder ynglŷn a'r ffaith bod taliadau iawndal cyfartalog ar gyfer gwartheg wedi treblu yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. Mynegwyd pryderon eraill am y broses o brisio anifeiliaid at ddibenion iawndal a digonolrwydd rheolaethau Defra. Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o gasgliadau perthnasol y ddau adroddiad. Mae Defra a'r Cynulliad fesul dau yn datbalygu trefniadau newydd af gyfer rhesymoli taliadau iawndal yn cwmpasu pob rhywogaeth a haint, gan gynnwys trefniadau newydd ar gyfer prisio anifeiliaid; cynllunir ymgynghori yn hwyrach yn 2003.

1.6 Cydnabu swyddogion y Cynulliad y cynnydd mawr diweddar mewn iawndal a dalwyd gan y Cynulliad mewn perthynas â thwbercwlosis buchol ac roeddent yn pryderu ynglŷn â'r strwythur gweinyddol a oedd yn sail iddo. Gofynnodd y swyddogion am archwiliad annibynnol o'r materion hyn, a chytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymgymryd ag ef. Yn erbyn y cefndir hwnnw rydym:

- yn rhoi dadansoddiad archwilio o effaith twbercwlosis buchol ar ffermwyr, a'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer eu digolledu am anifeiliaid a laddwyd (Rhan 2);
- wedi ystyried a oedd y taliadau iawndal am dwbercwlosis buchol yn gyson â'r polisi o adlewyrchu gwerthoedd gwaelodol y farchnad (Rhan 3);
- wedi ystyried digonolrwydd rheolaeth y Cynulliad dros y risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses brisio a'i waith monitro cyffredinol (Rhan 4); ac
- wedi ystyried a oes cyfle i'r Cynulliad wella'r ffordd y mae'n rheoli'r broses, gan gynnwys gwersi posibl o fannau eraill (Rhan 5).

1.7 Mae cryn dipyn o ymchwil wyddonol yn cael ei gwneud i'r hyn sy'n achosi twbercwlosis buchol, ac mae cynlluniau peilot ar waith i asesu pa mor effeithiol yw'r gwahanol ddulliau o reoli'r clefyd. Felly nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw rheolaeth y Cynulliad dros y clefyd; mae'n canolbwyntio ar y trefniadau sy'n sail i lefel y taliadau iawndal a wneir i ffermwyr.

1 Gall y Cynulliad adennill refeniw ar gyfer llawer o'r anifeiliaid a laddwyd, naill ai oddi wrth ladd-dai neu, ar gyfer anifeiliaid dros dri deg mis oed na allant felly fynd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol, gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig. Yn 2002-03 cafwyd £1.1 miliwn o refeniw "achub", 14 y cant o gyfanswm yr iawndal a dalwyd.

1.8 Wrth gynnal yr astudiaeth rydym:

- wedi casglu gwybodaeth y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol am daliadau iawndal ar gyfer twbercwlosis buchol yng Nghymru a'i chyfuno a'i dadansoddi, er mwyn ei chymharu â phrisiau gwaelodol y farchnad (gweler Atodiad 3);

- wedi cynnal grŵp ffocws o ffermwyr yr effeithiwyd arnynt gan dwbercwlosis buchol;

- wedi arsylwi'r broses o brisio anifeiliaid ar ddwy fferm;

- wedi cyfweld â swyddogion perthnasol y Cynulliad, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a Defra;

- wedi ymweld â swyddfa'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghaerwysg a'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon;

- wedi cynnal cyfweliadau â chymdeithas bedigri Holstein UK, undebau'r amaethwyr, priswyr da byw unigol ym mhob rhanbarth o'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, cymdeithasau priswyr amaethyddol proffesiynol ac uwch yswirwyr yn y sector yswiriant da byw; ac

- wedi penodi priswir ymgynghorol i roi cyngor i ni ar brisiau'r farchnad a materion sy'n ymwneud â phrisio.

Ceir manylion llawn am fethodoleg yr astudiaeth yn Atodiad 2.





# RHAN 2 Mae twbercwlosis buchol yn broblem ddifrifol i ffermwyr, problem sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf

2.1 Cydnabyddir yn eang bod twbercwlosis buchol yn broblem ddifrifol a chynyddol, sy'n cael effaith fawr iawn ar y gymuned ffermio. Mae'r clefyd yn heintus iawn, ac yn lleoledig iawn. Mae'n tueddu i ledaenu'n gyflym o fewn ardaloedd penodol. Gall achosion o'r clefyd effeithio ar ffermydd am gyfnod maith. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad archwilio manwl, yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer ein harchwiliad sylweddol o lefelau iawndal a'r broses o benderfynu ar daliadau iawndal. Yn y rhan hon, rydym yn archwilio:

- hanes a nifer yr achosion o dwbercwlosis buchol yng Nghymru;
- sut y nodir ac yr ymdrinnir â thwbercwlosis buchol;
- effaith twbercwlosis buchol ar ffermwyr; a'r
- trefniadau ar gyfer digolledu ffermwyr am anifeiliaid a laddwyd.

## Hanes a nifer yr achosion o'r clefyd


### Mae lefelau o dwbercwlosis buchol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf

2.2 Roedd twbercwlosis buchol yn broblem ddifrifol iawn yn y Deyrnas Unedig yn ystod y 1930au a'r 1940au, pan effeithiwyd ar hyd at 20 y cant o fuchesi yn y Deyrnas Unedig. O ganlyniad i'r lefel hon o heintiad, dechreuodd yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i ddileu twbercwlosis yn y 1940au. Gostyngodd nifer yr achosion o dwbercwlosis tan 1960, a phryd hynny yr ystyriwyd bod y Deyrnas Unedig yn rhydd o'r clefyd.

2.3 Fodd bynnag, cynyddodd lefelau o dwbercwlosis buchol yn gyson o ddiwedd y 1970au a dechrau'r 1980au, ac maent wedi cyflymu yn ystod 1990 au a'r 2000au. Dengys **Ffigur 3** ddau fesur o nifer yr achosion. Gellir esbonio'r cynnydd mawr sydyn yn y ddau fesur ar gyfer 2002 yn rhannol gan yr ymdrechion i gael gwared â'r ôl-groniad o brofion yn sgîl argyfwng clwy'r traed a'r genau (paragraff 2.8): cynhaliwyd llawer mwy o brofion na'r arfer yn 2002, ac fe'u targedwyd yn benodol at fuchesi yr ystyriwyd eu bod yn fwy tebygol o ddal y clefyd. Mae'n bosibl hefyd bod twbercwlosis wedi datblygu ac wedi lledaenu mewn rhai ardaloedd oherwydd y gostyngiad yn nifer y profion a gynhaliwyd yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. Eto i gyd, fel

**Ffigur 3**

**Nifer yr achosion newydd a gadarnhawyd yng Nghymru**





*Ffynhonnell: Ystadegau Twbercwlosis Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol*

enghraifft o'r nifer cynyddol o achosion o dwbercwlosis, cynyddodd nifer yr anifeiliaid a laddwyd yng Nghymru, oherwydd twbercwlosis buchol dros bedair gwaith a hanner i ychydig o dan 5,000 rhwng 2001 a 2002. Rhwng 1996 a 2002 29 y cant oedd y cynnydd blynyddol cyfartalog mewn achosion newydd a gadarnhawyd.

2.4 Dengys **Ffigur 4** nifer yr achosion o'r clefyd yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd (yn seiliedig ar amledd profion buchesi - paragraff 2.6) ac felly dengys ei natur leol iawn. Gorllewin Cymru, penrhyn Gŵyr, Sir Fynwy a rhannau o Bowys yw'r prif ardaloedd yng Nghymru lle mae nifer fawr o achosion. Yn Lloegr mae nifer fawr o achosion yn y de-orllewin.

**Ffigur 4**

**Amledd profion yng Nghymru a Lloegr Ionawr 2003**




*Ffynhonnell: Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol*

## Mae cryn ddadl ynglŷn â'r hyn sy'n achosi twbercwlosis buchol

2.5 Credir yn gyffredinol gan ffermwyr bod twbercwlosis buchol yn cael ei drosglwyddo drwy organedd bywyd gwyllt sy'n cludo'r clefyd heblaw gwartheg, a nodir moch daear - rhywogaeth a ddiogelir - fel yr anifail sydd fwyaf tebygol o gludo'r clefyd.[2] Mae grwpiau eraill yn anghytuno â'r farn hon, a chynhelir cyfres o dreialon ar y cysylltiad posibl rhwng moch daear a thwbercwlosis buchol ar hyn o bryd. Treialon Krebs yw'r enw a roddwyd ar y rhain, ar ôl y grŵp ymgynghorol a gynghorodd Defra i gynnal treial difa moch daear ar hap yn 1997. Gohiriwyd y treialon, a ddechreuodd yn 1998, oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001 ac ni ddisgwylir i'w canlyniadau gael eu cyhoeddi tan 2006 bellach. Ystyriodd adroddiad diweddar gan bwyllgor dethol seneddol y berthynas rhwng moch daear a thwbercwlosis.[3] O ran y cysylltiad rhwng moch ddaear a thwbercwlosis buchol, roedd o'r farn y dylai'r treialon difa moch daear ar hap barhau, a chroesawodd ddatganiad diweddar gan Weinidog na fwriedir ymestyn difa moch daear y tu hwnt i ardaloedd y treialon tra bod y treial yn parhau.

## Nodi a thrafod anifeiliaid yr effeithir arnynt gan dwbercwlosis

### Caiff holl wartheg y wlad eu profi'n rheolaidd ar gyfer twbercwlosis

2.6 O dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd caiff holl wartheg y wlad eu profi'n rheolaidd ar gyfer y clefyd. Mae cyfarwyddeb berthnasol yr Undeb Ewropeaidd (64/432) yn nodi pa mor aml y mae'n rhaid profi anifeiliaid ac mae hynny'n amrywio o un flwyddyn i'r llall a phob pedair blynedd, yn ôl nifer yr achosion o'r clefyd a fu yn y plwyf.[4] Yn ystod y prawf (a elwir yn "brawf croen" yn gyffredinol) mae arolygydd milfeddygol lleol yn chwistrellu twbercwlin i'r anifail. Os bydd yr anifail yn cael adwaith i'r prawf, bydd lwmp yn ffurfio lle y chwistrellwyd y twbercwlin. Gan ddibynnu ar faint y lwmp dynodir yr anifail yn 'adweithydd' neu'n 'adweithydd amhendant' neu'n rhydd o dwbercwlosis. Cedwir adweithwyr amhendant ar wahân ac fe'u profir bob 42 diwrnod. Os yw eu canlyniadau'n amhendant ar dri achlysur fe'u dynodir yn adweithwyr ac fe'u lleddir.

2.7 Os cadarnheir twbercwlosis ar ôl canlyniad y prawf croen (mewn labordy neu yn ystod archwiliad post mortem yn y lladd-dŷ), mae staff lleol y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn dynodi adweithwyr amhendant fel adweithwyr gan ddefnyddio dehongliad llymach o'r prawf croen. Gallant hefyd benderfynu symud anifeiliaid sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ag adweithwyr (gelwir anifeiliaid o'r

2 Mae'r rhesymau posibl eraill dros ledaeniad twbercwlosis yn cynnwys trosglwyddo rhwng gwartheg, trosglwyddo drwy'r pridd a throsglwyddo drwy organeddau bywyd gwyllt eraill megis ceirw a llwynogod.

3 Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin, 'Badgers and bovine tuberculosis', HC 432, Ebrill 2003.


4 Canfyddir rhai achosion o dwbercwlosis drwy brofion rheolaidd o garcasau cig ar ôl marwolaeth yn y lladd-dy gan y Gwasanaeth Hylendid Cig.

fath yn "gysylltiadau uniongyrchol"). Mae achos o dwbercwlosis buchol a gadarnhawyd hefyd yn peri i brofion gael eu cynnal ar ffermydd cyffiniol, ynghyd â phroses o olrhain anifeiliaid sydd wedi symud o'r fuches yn ddiweddar. Yn wahanol i glwy'r traed a'r genau, sy'n arwain at ladd buchesi cyfan o anifeiliaid, dim ond cyfran o'r fuches y mae twbercwlosis buchol yn effeithio arni. Yn 2002 roedd nifer yr anifeiliaid a laddwyd oherwydd twbercwlosis yn llai nag un y cant o gyfanswm yr anifeiliaid a brofwyd yn ystod y flwyddyn honno.

2.8 Arweiniodd argyfwng clwy'r traed a'r genau a'r cyfyngiadau ar fynediad i ffermydd o ganlyniad at ôl-groniadau sylweddol o ran profion am dwbercwlosis, gan gyrraedd uchafbwynt o 5,305 o brofion ym mis Chwefror 2002. Erbyn mis Mawrth 2003 roedd yr ôl-groniad wedi gostwng i 794 o brofion, yr oedd wyth y cant ohonynt wedi'u gohirio ers dros flwyddyn.

### Ar ôl canfod achos o'r clefyd, mae ffermydd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ar symud anifeiliaid

2.9 Ar ôl canfod adweithwyr, cyflwynir hysbysiad i berchenogion buchesi sy'n gosod cyfyngiadau ar eu safleoedd o ran symud anifeiliaid, sydd yn y rhan fwyaf o achosion yn atal y ffermwr rhag symud ei wartheg oddi ar y fferm a dod ag anifeiliaid newydd i mewn iddi. Os na chadarnheir twbercwlosis gan archwiliad post mortem neu drwy feithrin bacteria, codir y cyfyngiad ar symud anifeiliaid ar ôl un prawf clir wedi'i gynnal 60 diwrnod ar ôl ynysu neu symud gwartheg sy'n adweithio. Os cadarnheir twbercwlosis, codir cyfyngiadau ar ôl dau brawf clir olynol a gynhelir bob 60 diwrnod. Felly y cyfnod lleiaf y bydd cyfyngiadau yn parhau ar fferm lle y cadarnheir twbercwlosis yw pedwar mis (120 diwrnod).




2.10 Cafodd anawsterau o ran cyrraedd ffermydd yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau effaith sylweddol ar hyd y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid. Yn ogystal cyflwynwyd cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ar gyfer rhai buchesi yr oedd eu profion dilynol wedi'u gohirio. Rhwng y blynyddoedd 2000 a 2002, cynyddodd cyfnod cyfartalog cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ar ffermydd ar draws Prydain Fawr o ychydig dros 100 diwrnod i 250 diwrnod ar gyfer achosion nas cadarnhawyd, ac o ychydig dros 200 diwrnod i 350 diwrnod ar gyfer achosion newydd a gadarnhawyd. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2002, roedd cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ar waith ar 779 o ffermydd (4.5 y cant o fuchesi a gofrestrwyd gyda'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol) yng Nghymru oherwydd twbercwlosis buchol.

### Cyhoeddodd y Cynulliad becyn interim o fesurau i ymladd twbercwlosis buchol yn ddiweddar

2.11 Mae'r adran hon yn amlinellu sawl newid i bolisi y mae'r Cynulliad wedi'u rhoi ar waith yn ddiweddar. Yn ogystal â chymryd camau mewn cydweithrediad ag adrannau amaethyddol eraill i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â rheoli twbercwlosis buchol. Yn ogystal â pholisi'r llywodraeth, mae camau ymarferol y gall ffermwyr unigol eu cymryd i leihau'r risg y bydd twbercwlosis buchol yn effeithio ar eu buchesi. Ymhlith y camau hyn mae gweithredu mesurau biodiogelwch cadarn a gwirio anifeiliaid y daethpwyd â hwy ar y fferm o rywle arall yn ofalus.

2.12 Ym mis Mai 2002 cyhoeddodd y Cynulliad becyn interim o fesurau rheoli twbercwlosis. Roedd y pecyn hwn yn cynnwys cynllun peilot dwy flynedd o'r prawf gwaed Gama Interfferon fel prawf atodol mewn buchesi o dan gyfyngiadau. Mae'r cynllun peilot yn un gwirfoddol, ac mae hefyd yn cael ei gynnal mewn rhannau o Loegr, gyda'r nod o ganfod a yw'r defnydd o'r prawf gwaed atodol yn canfod y clefyd yn gynt ac felly'n cyfrannu at ddileu'r clefyd o fuchesi yn gynt na'r prawf croen yn unig. Mewn pecyn ychwanegol o fesurau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002, caniatawyd hefyd, o dan amgylchiadau penodol, i wartheg o fuchesi o dan gyfyngiadau symud gael eu symud dan drwydded, lle nad oedd yr anifeiliaid a symudwyd wedi adweithio i'r prawf croen.

2.13 Ym mis Tachwedd 2002 cyhoeddodd y Cynulliad ei fod yn llacio cyfyngiadau ar symud gwartheg i fuchesi o dan gyfyngiadau symud, yn amodol ar asesiad risg manwl gan staff y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol. Nod y pecyn hwn o fesurau oedd helpu ffermwyr yr effeithiwyd arnynt gan dwbercwlosis buchol i gyflwyno anifeiliaid newydd i'w buchesi yn lle'r rhai a gollwyd ar ôl adweithio i'r prawf croen.

2.14 Mae'r Cynulliad wedi cynnwys o fewn ei gyllideb gyhoeddedig £4 miliwn ychwanegol a fydd ar gael i gynorthwyo gwaith y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol ar ddileu twbercwlosis dros y ddwy flwyddyn ariannol yn dechrau Ebrill 2003. Mae'r arian hwn yn ychwanegol at y cyllid canolog y mae Defra yn ei roi i'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi gwahodd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol i recriwtio prisiwr yn goruchwylio ac yn gweithio'n uniongyrchol â'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a phriswyr preifat, a staff ychwanegol i fonitro prisiau'r farchnad.

2.15 Mae'r Cynulliad hefyd wedi cydweithio â gweinyddiaethau amaethyddol eraill - Defra a'r weithrediaeth Albanaidd - wrth adolygu'r strategaeth presennol ar gyfer rheoli twbercwlosis buchol gyda'r bwriad o gyhoeddi strategaethau newydd, canol a thymor hir yn yr Hydref.

## Mae twbercwlosis buchol yn cael effaith ddifrifol ar ffermwyr

2.16 Gall canlyniadau achosion o dwbercwlosis effeithio ar ffermydd am beth amser oherwydd hyd y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid a osodwyd ar ôl canfod achos. Yn dilyn cyfyngiadau ar symud anifeiliaid mae tuedd i ffermydd fod â gormod neu rhy ychydig o stoc. Lle yr aethpwyd â nifer cymharol fach o anifeiliaid a lle mae'r cyfyngiadau yn parhau, gall ffermydd sy'n magu eu hanifeiliaid eu hunain fod mewn sefyllfa lle nad oes digon o le i'r lloi a anwyd i'r anifeiliaid sy'n weddill tra bod

### ASTUDIAETH ACHOS 1

Disgrifiodd y ffermwr yn Fferm A achos diweddar o dwbercwlosis ar ei fferm fel 'y peth gwaethaf a ddigwyddodd' yn ystod y deugain mlynedd y bu'n ffermio. Symudodd y ffermwr ei fusnes ffermio i fferm 162 erw yng Ngorllewin Cymru yn 1999. Profwyd ei fuches, sef gwartheg godro yn bennaf ond gydag elfen fach o wartheg eidion, a chadarnhawyd ei bod yn rhydd o dwbercwlosis cyn ei symud. Roedd wedi'u bridio'r fuches yn ofalus ers pum mlynedd ar hugain. Erbyn mis Mawrth 2000, roedd twbercwlosis ar 181 o anifeiliaid yn y fuches. Ers hynny dim ond am chwe mis yn unig y mae'r fferm wedi bod yn rhydd o gyfyngiadau ar symud anifeiliaid. Lladdwyd 40 o anifeiliaid oherwydd twbercwlosis, llawer ohonynt drwy eu saethu ar y fferm. Cymharodd y ffermwr a'i wraig yr achosion â phrofedigaeth.

Disgrifiodd y ffermwr y problemau o ran llif arian parod, a gafodd y fferm yn dilyn yr achosion, gan amcangyfrif colledion canlyniadol gros o £14,000 y flwyddyn (yn bennaf oherwydd bod gwerthiannau llaeth wedi gostwng draean, yn ogystal â'r gwerthiannau o loi a gollwyd), ynghyd â chost o £40,000 ar gyfer anifeiliaid newydd. Cafodd y fferm iawndal o £57,000 yn ogystal â thaliadau yswiriant.

Disgrifiodd y ffermwr a'i wraig y ffordd yr oedd twbercwlosis wedi llyffetheirio eu fferm, gan eu hatal rhag gwireddu eu cynlluniau i ehangu'r fuches laeth a chyflogi eu tri o blant sydd wedi cael hyfforddiant amaethyddol ar y fferm. Mae'r fferm hefyd wedi dioddef o gael gormod o stoc, a arweiniodd at broblemau o ran lles yr anifeiliaid a chael lle i'w cadw, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.



## ASTUDIAETH ACHOS 2

Mae Fferm B wedi dioddef cyfnodau o gael gormod o stoc a rhy ychydig o stoc ers i'w buches llaeth ac eidion o 300 o anifeiliaid ddal twbercwlosis gyntaf ym mis Mawrth 2001. Ym mis Tachwedd 2002, ailymddangosodd y clefyd ar ôl i'r fferm fod yn rhydd o'r clefyd am chwe mis a chollwyd cyfanswm o 114 o anifeiliaid. Saethwyd 45 ar y fferm, a barodd gryn ofid i'r teulu. Gwirfoddolodd y ffermwr i gymryd rhan mewn prawf Gama Interfferon a chollodd 59 o anifeiliaid yn y ffordd hon. Yn dilyn hynny dim ond 6 ohonynt y profwyd eu bod yn dioddef o dwbercwlosis.

Mae'r fferm hon wedi colli pob un o'i gwartheg godro o ganlyniad i dwbercwlosis ac nid yw'n cael unrhyw refeniw gwerthiannau llaeth mwyach. Bu llif arian parod yn broblem fawr a dim ond drwy fod yn ddarbodus y mae ffermwr wedi parhau i fod mewn busnes. Bydd yr effeithiau yn rhai hirdymor gan y bydd yn cymryd dwy flynedd i ailgynhyrchu'r incwm eidion. Yn y cyfamser, oherwydd yr achosion o dwbercwlosis, ni fydd y lladd-dy arbenigol yn Swydd Efrog, sydd fel arfer yn talu premiwm am ei anifeiliaid, yn eu derbyn mwyach. O ganlyniad i hyn mae incwm eidion y fferm wedi gostwng £100 fesul anifail.

Yn ôl y ffermwr a'i wraig roedd twbercwlosis wedi dileu pob dewis iddynt ac wedi'i gwneud yn anos i gynllunio at y dyfodol. Maent wedi gallu dod â 40 o anifeiliaid newydd i mewn i'r fferm, ond bydd yn rhaid iddynt aros dwy flynedd cyn y gallant eu gwerthu fel cig eidion. Nododd y ffermwyr bod yr anifeiliaid newydd o safon is na'r anifeiliaid a gollodd. Disgrifiodd y ffermwr y ffordd yr oedd moch daear ar y fferm yn mynd i mewn i flychau porthiant ei anifeiliaid. Yn ffodus, roedd y fferm wedi ei hyswirio a chafodd daliadau am yr anifeiliaid a gollwyd. Roedd hyn yn helpu i wrthbwyso colledion canlyniadol y fferm a'i helpu drwy'r cyfnod cynnar ar ôl canfod twbercwlosis.



## ASTUDIAETH ACHOS 3

Ar y fferm hon sy'n fferm laeth yn bennaf, mae tua 150 yn ormod o loi arni ers i dwbercwlosis ymddangos yno gyntaf. Lladdwyd 21 o anifeiliaid o fuches o 200, a bu cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ers mis Mehefin 2002. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod angen llaeth ar gyfer y lloi ychwanegol ar y fferm a'r anallu i gael anifeiliaid newydd yn lle'r rhai a gollwyd neu anifeiliaid anghynhyrchiol, wedi peri i werthiannau llaeth ostwng ychydig dros draean.

Aeth y fferm i gostau ychwanegol o ran cyflogi llafur achlysurol i gynorthwyo yn y pum prawf a gynhaliwyd hyd yma, porthiant ar gyfer y lloi dros ben (ar ôl i'r fferm ddefnyddio ei silwair i gyd) a refeniw o werthiannau lloi a gollwyd o ganlyniad i gyfyngiadau ar symud anifeiliaid. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn gorddrafft a sylw manylach gan reolwr banc y fferm. Mae'r ffermwr a'i wraig yn bryderus iawn am ddyfodol y fferm os bydd y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid yn parhau. Mae'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid wedi atal y fferm rhag anelu at ei bwriad o ehangu ei fuches laeth mewn ymateb i bris is llaeth ac felly elw.

Bu problemau lles oherwydd gormod o stoc. Mae anifeiliaid wedi dal niwmonia a salmonela, gan arwain at gostau milfeddygol cynyddol. Lladdwyd dau anifail gan y milfeddyg, a allai fod wedi rhoi llawdriniaeth pe bai digon o le iddynt wella. Mae problemau parhaus o ran lle i gadw anifeiliaid a lle pori. Fis Tachwedd diwethaf rhoddwyd trwydded i'r fferm gael 20 o anifeiliaid newydd ond dim ond naw o anifeiliaid newydd y gellid dod â hwy ar y fferm am fod diffyg lle.

Mae'r fferm wedi'i hyswirio rhag twbercwlosis ac wedi llwyddo i adennill ychydig o dan hanner ei cholledion canlyniadol o'r polisi. Fodd bynnag mae ei phremiymau blynyddol wedi cynyddu o £200 i £3,000 dros y ddwy flynedd diwethaf.



cyfyngiadau ar waith. Fel arfer gorfodir y ffermydd hyn i gadw'r lloi hyn ar ôl yr amser gorau i'w gwerthu (fel arfer yn fuan ar ôl eu geni). Fel arall, gall ffermydd golli rhan sylweddol o'u buchesi wrth i anifeiliaid adweithio i'r prawf croen. Mae'r tair astudiaeth achos yn yr adran hon yn dangos effeithiau gormod o stoc neu rhy ychydig o stoc ar ffermydd o ganlyniad i dwbercwlosis.

2.17 Mae effaith achosion o dwbercwlosis buchol mewn amrywiol ffyrdd ar y ffermydd dan sylw, yn dibynnu ar natur yr achosion a busnes y fferm. Gellir dosbarthu'r prif effeithiau fel:

- effeithiau ariannol ar fusnes y fferm;
- effeithiau ar les yr anifeiliaid; ac
- effeithiau personol ac emosiynol ar y ffermwr a'r teulu.

Ystyrir pob un yn ei dro isod.

### Mae ffermwyr yn dioddef colledion canlyniadol sy'n fwy na gwerth yr anifeiliaid a laddwyd ar y farchnad

2.18 Er bod y Cynulliad yn talu iawndal i ffermwyr am werth yr anifeiliaid a laddwyd ar y farchnad, rhoddir baich ariannol ychwanegol ar fusnes y fferm pan osodir cyfyngiadau ar symud anifeiliaid a phan fo gormod neu rhy ychydig o stoc ar y fferm o ganlyniad i hynny fel y disgrifiwyd uchod. Mae hyn yn arwain at golledion canlyniadol i ffermydd sy'n fwy na gwerth cyfalaf yr anifail a laddwyd. Mewn astudiaeth academaidd ddiweddar[5] ac adolygiad o bolisi'r llywodraeth[6] bu ymgais i feintioli'r colledion canlyniadol. Gan fod pob achos yn wahanol, mae'n anodd iawn cyffredinoli ynglŷn ag effaith debygol twbercwlosis ar fferm unigol. Fodd bynnag, amcangyfrifodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn ddiweddar fod achosion yn costio £36,000 i ffermydd ar gyfartaledd, wrth roi tystiolaeth i un o Bwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin[7].

2.19 Mae'r prif golledion canlyniadol a wyneba ffermwyr yn ymwneud â:

- colli gwerthiannau llaeth (paragraff 2.20);
- colli gwerthiannau cig eidion (paragraff 2.21); a
- colledion canlyniadol llai amrywiol yn deillio o gostau ychwanegol yr aethpwyd iddynt pan fo achosion o dwbercwlosis (paragraff 2.22).

Yn ogystal â cholledion ariannol, gall ansicrwydd am barhad y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ei gwneud yn anodd iawn i lunio cynllun busnes.

2.20 Mae ffermydd llaeth sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau ar symud anifeiliaid oherwydd twbercwlosis buchol yn aml yn colli cyfran sylweddol o'u refeniw gwerthiannau llaeth. Lle mae ffermwyr llaeth yn prynu eu hanifeiliaid newydd eu hunain, mae maint y busnes yn gostwng yn sylweddol tra bod cyfyngiadau. I ffermwr llaeth gall hyn gael effaith ddifrifol ar eu gwerthiannau llaeth (Astudiaethau Achos 1-3). Ar y llaw arall, gallai ffermwr llaeth lle mae gormod o anifeiliaid ar ei fferm, fynd y tu hwnt i'w gwota llaeth a byddai'n rhaid iddo dalu ardoll uwch.

2.21 Yn gyffredinol, mae'n cymryd dwy flynedd i fagu anifeiliaid i'w gwerthu fel cig eidion. Pan fo achosion o dwbercwlosis, gall ffermwyr gwartheg eidion golli refeniw o werthiannau lloi yn ogystal â wynebu colledion yn yr ail flwyddyn wrth i'r fferm fagu anifeiliaid eraill yn lle'r rhai a gollwyd. Er y gall ffermwyr symud gwartheg o fuchesi sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau i ladd dai (naill ai'n uniongyrchol neu drwy farchnad lladd-dy neu ganolfan gasglu) drwy drwydded, dim ond i ffermydd mewn rhanbarthau cyfagos o'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol y gellir symud anifeiliaid rhwng ffermydd dan gyfyngiad drwy drwydded. Dengys Astudiaeth Achos 2 y gall hyn leihau'r pris gwerthu.

2.22 Yn ogystal â cholli refeniw o werthiannau llaeth, eidion a lloi, mae ffermydd sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau ar symud anifeiliaid oherwydd twbercwlosis, yn mynd i gostau sy'n gallu ychwanegu at eu colledion canlyniadol. Disgrifir rhai o'r costau hyn yn Astudiaeth Achos 3 ac maent yn cynnwys:

- costau porthiant a thrafod ychwanegol wrth i dir y ffermwr fethu ag ymdopi â lefelau dwys o anifeiliaid;
- cost llafur ychwanegol i weinyddu ail brofion, megis casglu a chyflwyno anifeiliaid ar gyfer profion (mae'r gost hon yn uwch yn ystod misoedd yr haf pan gaiff anifeiliaid eu rhoi i bori);

5 Ymgynghoriaeth Economeg a Busnes ADAS, 'The Cost at Farm Level of Consequential Losses from Tuberculosis Control Measures', Mehefin 2000.
6 Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon, Adolygiad o Bolisi Rheoli Twbercwlosis Buchol, Gorffennaf 2002.
7 Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin, 'Badgers and bovine TB', HC 432, paragraff 10.

- cost lle ychwanegol i gadw adweithwyr amhendant neu anifeiliaid newydd y daethpwyd â hwy ar y fferm drwy drwydded;

- lle mae gormod o stoc ar y fferm, cost silwair a phorthiant ychwanegol; a

- costau milfeddygol ychwanegol os bydd cyflyrau eraill, megis niwmonia neu salmonella, yn lledaenu oherwydd lefelau dwys o anifeiliaid.

2.23 Mae llawer o ffermwyr yn yswirio rhag colledion canlyniadol oherwydd twbercwlosis buchol. Fel arfer mae yswiriant o'r fath yn helpu i wrthbwyso colledion canlyniadol ffermwyr yn hytrach na'u talu yn llawn. Mae yswirwyr yn cynnig amrywiaeth o gynnyrch, gan roi gwahanol fathau a lefelau o yswiriant. Mae'n anarferol iddynt gynnig yswiriant ar gyfer twbercwlosis yn unig - mae'r rhan fwyaf o yswirwyr yn gofyn i ffermwyr drefnu eu holl yswiriant fferm gyda hwy os disgwylir iddynt yswirio rhag twbercwlosis. Mae hefyd wedi mynd yn fwy cyffredin i bolisïau newydd cael eu cynnig dim ond i ffermwyr na fu achosion diweddar o dwbercwlosis ar eu fferm, sy'n golygu nad yw yswiriant rhag twbercwlosis buchol ar gael i rai ffermwyr (yn dibynnu ar y meini prawf a ddefnyddir gan yr yswirwyr pan gynigir polisïau newydd). Mae premiymau yswiriant twbercwlosis wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i nifer yr achosion gynyddu - gweler y blwch isod.

**Premiymau cynyddol ar gyfer yswiriant rhag twbercwlosis**

Dywedodd yr yswirwyr y siaradasom â hwy fod taliadau ar gyfer hawliadau ar eu polisïau twbercwlosis yn sylweddol uwch na'r premiymau a gawsant. Os na fydd nifer yr achosion o dwbercwlosis buchol yn gostwng, mae'n debygol y bydd natur yswiriant rhag twbercwlosis, neu yn y sefyllfa waethaf oll, argaeledd yr yswiriant hwnnw, yn newid. Mynegodd yswirwyr bryder am ymarferoldeb yswiriant rhag twbercwlosis yn y dyfodol gan fod cymaint o ansicrwydd ynglŷn â'r hyn sy'n achosi'r clefyd (paragraff 2.5).

### Mae achosion o dwbercwlosis yn arwain at broblemau o ran lles yr anifeiliaid sy'n weddill

2.24 Pan fo gormod o anifeiliaid ar ffermydd oherwydd twbercwlosis, gall prinder mawr o le i gadw anifeiliaid olygu bod y rhai sy'n aros ar y fferm yn aml yn dioddef o broblemau lles. Gall prinder lle hefyd arwain at broblemau o ran trin anifeiliaid sy'n dioddef o gyflyrau eraill, yn enwedig os bydd angen lle arbenigol iddynt neu eu hynysu yn dilyn llawdriniaeth. Dywedodd ffermwyr yn ein grŵp ffocws wrthym hefyd fod yr holl broses o gasglu a phrofi anifeiliaid yn rhoi straen ar yr anifeiliaid. Ar adeg y profion roedd ambell un yn syrthio neu'n erthylu neu roedd y llaeth a gynhyrchwyd yn gostwng yn gyffredinol.

### Mae twbercwlosis buchol yn cael effaith bersonol ar ffermwyr a'u teuluoedd

2.25 Dywedodd ffermwyr wrthym fod achosion o dwbercwlosis buchol yn cael effaith emosiynol ddifrifol arnynt hwy a'u teuluoedd. Yn ein grŵp ffocws, disgrifiodd ffermwyr y trawma a deimlai eu plant wrth i anifeiliaid cyfarwydd gael eu lladd yn y buarth. Dywedasant fod plant yn aml yn magu cyfres benodol o loi, a gallai colli'r anifeiliaid hyn fod yn drawmatig iawn.

**Sylwadau a wnaed gan ffermwyr am effaith bersonol achosion o dwbercwlosis buchol**

*'Ni allwch gynllunio faint o borthiant i'w brynu, ni wyddoch faint o laswellt y bydd ei angen arnoch. Mae'n anodd iawn.'*

*'Mae'n olygfa mor drist gweld y lori â deugain o loi arni, a gweld lloi yn cael eu saethu a'u taflu ar ben y gweddill.'*

*'Roedd fy mab yn ei ddagrau pan gollwyd pedwar neu bump o heffrod. Pan ddônt i'w casglu rydych yn ceisio peidio â'u gweld yn mynd ... fe wyddant ble i'w casglu ac fe wyddoch chi, rydych yn mynd i mewn i'r tŷ gan obeithio na ddônt i ofyn am help i'w taflu i'r lori.'*

*'Rydym yn lladd y buchod, ond nid ydym yn cael gwared o'r ffynhonnell [hy moch daear].'*

*'Mae yna deimlad o rwystredigaeth yn fwy na dim ... ni allwn weld y ffordd ymlaen.'*

*'Collwyd pob rheolaeth bron ar y clefyd.... Mae'n anobeithiol ... Allwch chi ddim goddef gweld eich busnes yn mynd i'r wal. Gall helbul o'r fath barhau am fisoedd. O dan gyfyngiad, ni allwch wneud unrhyw beth ac mae'r banc ar eich ôl chi ac ni allwch dalu'r bil hwn neu'r bil arall. Rhaid i hyn ddod i ben.'*

***Ffynhonnell: Grŵp Ffocws Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.***

2.26 Disgrifiodd ffermwyr hefyd y straen a'r gofid a deimlent yn ystod achosion o dwbercwlosis. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r ansicrwydd mawr a wynebant ynglŷn â faint o amser y bydd yr achosion yn parhau a pha mor ddifrifol ydynt, problemau o ran llunio cynllun busnes a'r rhwystredigaeth fawr a deimlir eu bod yn colli eu hanifeiliaid tra bod dim yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi lledaeniad twbercwlosis buchol yn eu barn hwy, sef moch daear. Ceir detholiad o sylwadau a wnaed gan ffermwyr yn ein grwpiau ffocws yn y blwch isod.

## Caiff ffermwyr eu digolledu am werth yr anifail a laddwyd ar y farchnad

2.27 O dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid (1981), gall Gweinidogion atafaelu a difa anifeiliaid er mwyn atal gwahanol glefydau hysbysadwy rhag lledaenu, ar yr amod eu bod yn talu iawndal am unrhyw anifail a atafaelwyd. Gall Gweinidogion[8] wneud gorchmynion mewn perthynas â chlefydau penodol, neu ddulliau o benderfynu ar werth yr anifail ar adeg atafaelu.

2.28 Cyn 26 Awst 1998, digolledwyd ffermwyr ar sail 75 y cant o werth y farchnad, a bennwyd bob mis. Roedd hyn yn gweithredu'n debyg i'r trefniadau presennol ar gyfer digolledu ffermwyr am anifeiliaid sy'n dioddef o frwselosis, heb rôl i briswyr preifat (gweler Ffigur 14 ar dudalen 37). Nodir trefniadau penodol ar gyfer digolledu ffermwyr am dwbercwlosis buchol yng Ngorchymyn Digolledu Brwselosis a Thwbercwlosis (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (1998) - cyn sefydlu'r Cynulliad - a gynyddodd yr iawndal i werth llawn yr anifail ar y farchnad mewn ymateb i bryderon ffermwyr am golledion ariannol a achoswyd gan gyfyngiadau ar symud anifeiliaid.

2.29 Mae'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn gyfrifol, ar ran y Cynulliad, am sicrhau y caiff anifeiliaid sy'n dioddef o dwbercwlosis buchol, eu prisio'n gyflym er mwyn hwyluso'r broses o waredu anifeiliaid er mwyn rheoli'r clefyd. Yna trosglwyddir y prisiant i'r Cynulliad, sy'n sicrhau bod ffermwyr a phriswyr yn cael eu taliadau iawndal a ffioedd prisio yn y drefn honno. Dengys **Ffigur 5** yr amryw ffyrdd o benderfynu ar werth anifail sy'n dioddef o dwbercwlosis buchol ar y farchnad, a bod priswyr preifat yn cymryd rhan yn y broses hon yn y rhan fwyaf o achosion. Fel arfer mae iawndal yn seiliedig ar dystysgrif gwerth anifail ar y farchnad gan brisiwr proffesiynol, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Nododd ffermwyr a gymerodd ran yn ein grŵp ffocws eu bod yn fodlon ar y prisiannau a roddwyd gan briswyr preifat ar gyfer anifeiliaid a laddwyd oherwydd twbercwlosis buchol. Fodd bynnag, mae effaith y cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ar ffermydd yr effeithiwyd arnynt yn golygu na all ffermwyr brynu anifeiliaid newydd am beth amser, wedi iddynt gael iawndal am anifeiliaid a laddwyd (ac erbyn hynny gallai gwerth y gwartheg ar y farchnad fod wedi cynyddu neu wedi gostwng).

2.30 Nid oes unrhyw gost ychwanegol i'r Cynulliad am brisiannau gan swyddogion milfeddygol y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol. Mae'r Cynulliad yn talu priswyr preifat, a enwebir gan y ffermwr neu gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, ar sail graddfa benodol o daliadau sy'n amrywio yn ôl nifer yr anifeiliaid a brisiwyd ac ai anifeiliaid masnachol neu bedigri ydynt.

2.31 Esboniodd y priswyr y siaradasom â hwy mai crefft ac nid gwyddoniaeth oedd prisio gwartheg, gan ddibynnu ar farn unigolion. Siaradwyd hefyd â ffermwyr a Holstein UK (y gymdeithas fridio ar gyfer anifeiliaid pedigri Holstein a Ffrisia) am y ffactorau sy'n effeithio ar werth anifeiliaid ar y farchnad. Mae gan bob anifail ei rinweddau a'i nodweddion ei hun, sy'n dylanwadu'n gryf ar ei werth ar y farchnad. Noda **Ffigur 6** isod rai o'r materion a all effeithio ar werth buwch ar y farchnad.

**Ffigur 5**

### Penderfynu ar werth ar y farchnad

**Swyddogion Milfeddygol** (16 y cant o anifeiliaid a brisiwyd yn 2002)

Gall swyddogion milfeddygol y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol gytuno ar brisiant gyda ffermwr. Maent yn tueddu i brisio niferoedd bach o anifeiliaid masnachol, dim mwy na phump fel arfer.

**Prisiant gan briswyr preifat** (84 y cant o anifeiliaid a brisiwyd yn 2002).

Mae gan ffermwyr yr hawl i ofyn am brisiant gan brisiwr preifat o'u dewis. Fel arfer maent yn enwebu'r arwerthwr lleol, sy'n gwerthu eu hanifeiliaid iach, ac y maent yn prynu anifeiliaid newydd oddi wrtho. Lle mae'r prisiwr hwn yn gweithredu ar ei ben ei hun, gelwir y broses yn **brisiant sengl** (40 y cant o anifeiliaid a brisiwyd yn 2002).

Gall y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol enwebu prisiwr i brisio anifeiliaid ar ei ran ochr yn ochr â'r prisiwr a enwebwyd gan y ffermwr. Am amryw o resymau, mae'n arfer cyffredin. Gelwir y defnydd o briswyr deuol yn **brisiant deuol** (44 y cant o anifeiliaid a brisiwyd yn 2002).

**Cymrodeddu**

Mewn nifer fach o achosion, ni all y ffermwr a'r prisiwr neu'r priswyr gytuno ar brisiant. O dan yr amgylchiadau hyn, cyfeirir y prisiant at gymrodeddwr. Yna mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn enwebu prisiwr, y mae ei brisiant yn gyfrwymol.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

8 Gweinidogion llywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan ddibynnu ar y clefyd.

## Ffigur 6

### Ffactorau sy'n effeithio ar werth anifail ar y farchnad

Mae llawer o ffactorau penodol yn effeithio ar werth anifail, yn ogystal â rheolau sylfaenol cyflenwad a galw. Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar werth anifail ar y farchnad:

- **nodweddion unigol anifail**, megis maint, pwysau, coesau a thraed, siâp y corff, cofnod lloia, nodweddion genetig, ymddangosiad cyffredinol, cloffni, ac, ar gyfer anifeiliaid llaeth, cynhyrchu llaeth a systemau tethol;
- **ffactorau tymhorol**, megis prisiau'n cynyddu'n sylweddol tua diwedd cyfnod cwota llaeth wrth i'r galw am allu cynhyrchu llaeth gynyddu;
- ar unrhyw ddiwrnod penodol, dylanwedir yn gryf ar bris y farchnad gan **nifer y prynwyr a'r math o brynwyr**, a **nifer yr anifeiliaid** sydd ar gael i'w gwerthu;
- gall y **tywydd** ar ddiwrnod marchnad effeithio ar nifer y bobl sy'n mynychu, gan effeithio ar y galw;
- **statws pedigri** gan fod anifeiliaid pedigri yn fwy gwerthfawr yn gyffredinol nag anifeiliaid masnachol, ond dim ond lle daw'r anifail pedigri o fuches ag enw da am dras a geneteg;
- ar gyfer anifeiliaid llaeth, yn gyffredinol y maen prawf allweddol yw **faint o laeth** y mae'r anifail yn ei gynhyrchu;
- mae gan bob buches bedigri ei **henw buches ei hun**; ar gyfer y buchesi bridio mwyaf llwyddiannus, gall hyn fod yn enw brand cryf iawn sy'n arwain at brisiau premiwm; a
- **gall natur yr anifeiliaid a gynigir mewn arwerthiant** effeithio ar brisiau'r farchnad; er enghraifft, mewn rhai marchnadoedd mae galw am heffrod gyda lloi; weithiau bydd mwy o alw os yw heffrod a lloi yn cael eu gwerthu ar wahân; yn yr un modd, bydd prynwyr yn talu premiwm am fuches gyfan a werthwyd fel un uned gynhyrchu.



*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

### PWYNTIAU ALLWEDDOL AR RAN 2

- Mae nifer yr achosion o dwbercwlosis buchol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru; rhwng 1996 a 2002. Roedd y cynnydd cyfartalog blynyddol yn nifer yr achosion o dwbercwlosis yn 29 y cant. Lladdwyd ychydig o dan 5,000 o anifeiliaid yng Nghymru yn 2002.
- Nodir twbercwlosis fel arfer drwy brofion rheolaidd a dilynol o fuchesi. Pan nodir twbercwlosis, cyfyngir ar symud buchesi hyd nes y bydd un neu ddau brawf clir olynol wedi'u cynnal. Yn 2002, cynyddodd parhad y cyfnod o gyfyngiadau ar symud anifeiliaid i flwyddyn ar gyfer achosion newydd a gadarnhawyd.
- Mae effaith achosion o dwbercwlosis buchol ar ffermwyr yn ddifrifol. Maent yn dioddef colledion ariannol, straen a gofid. Effeithir ar anifeiliaid eraill gan fod twbercwlosis yn gallu achosi problemau o ran lles anifeiliaid ar ffermydd.
- Mae ffermwyr yn cael iawndal gan y Cynulliad sy'n seiliedig ar werth llawn yr anifail ar y farchnad; fel arfer swyddog milfeddygol y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol neu brisiwr preifat sy'n penderfynu ar y gwerth.




# RHAN 3 Mae iawndal am anifeiliaid a laddwyd yn fwy na gwerthoedd gwaelodol y farchnad

3.1 Mae taliadau iawndal cyfartalog ar gyfer twbercwlosis wedi cynyddu yn ystod y cyfnod y mae'r Cynulliad wedi talu gwerthoedd llawn y farchnad ar gyfer anifeiliaid a laddwyd, sef rhwng 1999 a 2002. Dengys **Ffigur 7** fod cynnydd o 82 y cant ar gyfartaledd mewn prisiannau cyfartalog ar gyfer pob anifail yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigur 7**

**Taliad iawndal cyfartalog yn ôl blwyddyn y dyddiad prawf**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

3.2 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cwestiwn p'un a oedd taliadau iawndal yn adlewyrchu gwerthoedd y farchnad ar gyfer anifeiliaid iach, yn unol â pholisi'r Cynulliad. Dadansoddwyd data'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol ar anifeiliaid a brofwyd yn y blynyddoedd calendr 2000 a 2002 (hyd at 11 Hydref 2002) a'i gymharu â'r wybodaeth a oedd ar gael am dueddiadau'r farchnad yn ystod y blynyddoedd hynny. Ni chynhwyswyd 2001 gan fod argyfwng clwy'r traed a'r genau yn golygu nad oedd yn flwyddyn gynrychioliadol. Gwahaniaethwyd rhwng anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri (mae anifail masnachol yn anifail nas cofrestrwyd gyda chymdeithas bedigri), gan fod i'r olaf werthoedd uwch yn gyffredinol. Yn 2000, roedd 84 y cant o anifeiliaid a brisiwyd o ganlyniad i dwbercwlosis buchol yn rhai masnachol; erbyn 2002 roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 69 y cant. Cymharwyd hefyd brisiannau cyfartalog yng Nghymru â phrisiannau mewn gwledydd eraill.

3.3 Canolbwyntiodd ein dadansoddiad ar batrymau a thueddiadau cyffredinol, gan y byddai wedi bod yn amhosibl archwilio prisiannau unigol o anifeiliaid a ddinistriwyd. O gofio natur arbenigol iawn y gwaith o brisio gwartheg, ategwyd ein dadansoddiad a'n casgliadau gan brisiwr ymgynghorol o'r tu allan i Gymru, sy'n gymrawd o Gymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae gan ein hymgynghorydd dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad o brisiannau da byw.

## Roedd prisiannau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol yn 2000 a 2002 yn sylweddol uwch na phrisiau gwaelodol y farchnad

### Cynyddodd prisiannau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol 50 y cant rhwng 2000 a 2002

3.4 £778 oedd y taliad iawndal cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol, yr oedd eu dyddiad prawf yn y flwyddyn galendr 2000. Dengys Ffigur 8 fod y ffigur hwnnw wedi cynyddu 50 y cant yn 2002 i £1,164, wedi'i lywio gan gynnydd o dros 50 y cant yn y prisiannau iawndal masnachol cyfartalog yn yr ardaloedd a gwmpesir gan swyddfa Caerdydd a swyddfa Caerfyrddin y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, yn hytrach na swyddfa Caernarfon (lle cynyddodd prisiant masnachol 3 y cant yn unig yn ystod y cyfnod hwn).[9] Un rheswm posibl dros y cynnydd hwn yw'r penderfyniad i gyflwyno "cerdyn safon" o brisiannau yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau (gyda'r nod o gyflymu'r broses o brisio anifeiliaid). Gallai ffermwyr ddewis rhwng prisiant o'r cerdyn safon a phrisiant unigol gan brisiwr. £1,150 oedd terfyn uchaf y cerdyn safon, lefel a oedd yn debyg iawn i'r prisiant masnachol cyfartalog ar gyfer adweithwyr twbercwlosis yn 2002.

### Awgryma ystod o ddangosyddion fod pris y farchnad am anifeiliaid llaeth masnachol yn is na'r prisiant o adweithwyr twbercwlosis

3.5 Gwnaethom ddadansoddiad manwl o brisiau'r farchnad am anifeiliaid masnachol yn 2000 a 2002, gan ddefnyddio'r ffynonellau canlynol:

- ystadegau Defra ar brisiau anifeiliaid masnachol iach a werthwyd mewn marchnadoedd yng Nghymru a Lloegr (mae'r rhain yn adlewyrchu prisiau anifeiliaid llaeth yn unig gan nad oedd y data yn cynnwys gwartheg eidion bridio);

9 Mae Atodiad 4 yn rhoi crynodeb ar ffurf graff o'r gwahaniaethau rhanbarthol rhwng prisiannau masnachol ar gyfer anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri.

- prisiau marchnad dynodol ar gyfer BSE a brwselosis, sy'n seiliedig ar brisiau'r farchnad fasnachol (gweler Ffigur 14 ar dudalen 37); ac
- adroddiadau o arwerthiannau gwaredu yn y wasg amaethyddol.

**Arwerthiannau gwaredu**

Cynhelir arwerthiant gwaredu ar ôl marwolaeth ffermwr, neu pan fo ffermwr yn penderfynu gwerthu ei fusnes. Mae'r arwerthiant yn cynnwys gwaredu holl anifeiliaid y ffermwr, gan gynnwys da byw.

Ym marn llawer o ffermwyr roedd prisiau arwerthiannau gwaredu yn gymharydd gwell gan eu bod yn cynnwys holl anifeiliaid y fferm, yn hytrach na'r anifeiliaid hynny y mae ffermwr yn dewis eu gwerthu mewn marchnad. Nododd ffermwyr na fyddent fel arfer yn gwerthu llawer o'r anifeiliaid a laddwyd oherwydd twbercwlosis buchol. O ganlyniad, yn eu barn hwy, nid oedd prisiau'r farchnad fasnachol yn gymharydd hollol gywir ar gyfer prisio anifeiliaid a laddwyd oherwydd twbercwlosis buchol.

3.6 Nid yw'r un o'r ffynonellau hyn yn darparu cyfres o ddata union gymaradwy y gellir ei defnyddio i gymharu prisiannau cyfartalog. Er enghraifft, nid ydynt yn ystyried y lefelau cymharol uchel o fasnachu preifat a gafwyd yn 2002 pan ddechreuodd ffermwyr brynu anifeiliaid newydd ar ôl argyfwng clwy'r traed a'r genau. Ystumiwyd prisiau cyfartalog y farchnad gan y ffaith bod llawer o ffermwyr llaeth yn dadlau nad ydynt yn gwerthu eu hanifeiliaid gorau ar y farchnad, gan ddewis eu cadw ar gyfer cynhyrchu llaeth a bridio. Ac ystumiwyd ffigurau gan arwerthiannau gwaredu gan eu bod yn cynnwys anifeiliaid o ansawdd gwael na fyddent byth yn cael eu gwerthu ar y farchnad ac anifeiliaid pedigri (mae natur y data sydd ar gael yn golygu nad oes modd gwahanu'r anifeiliaid hyn). Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn **Ffigur 8** ac, ar ffurf graff, yn **Ffigur 9**, ac fe'u nodir yn fanylach yn Atodiad 3.

3.7 Er gwaethaf y data cyfyngedig, mae'r holl gymariaethau hyn yn awgrymu bod anghysondeb sylweddol amlwg rhwng prisiannau cyfartalog at ddibenion iawndal a'r data ar y farchnad sydd ar gael, yn 2000 a 2002. Awgryma ystod eang o ddangosyddion yn glir fod ffermwyr wedi cael iawndal a oedd gryn dipyn yn uwch na phrisiau'r farchnad ar gyfer anifeiliaid masnachol ar gyfartaledd. Er enghraifft, dengys Ffigur 8 fod prisiant iawndal cyfartalog 57 y cant yn uwch na phris cyfartalog anifail masnachol mewn arwerthiannau gwaredu.


3.8 At hynny, dengys Ffigur 8 a Ffigur 9 fod y gwahaniaeth yn 2002 rhwng taliadau iawndal cyfartalog a dangosyddion o bris y farchnad yn fwy nag yn 2000. Dengys Ffigur 8, er bod taliadau iawndal cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol wedi codi 50 y cant rhwng 2000 a 2002, fod y gwahanol ddangosyddion o brisiau'r farchnad wedi cynyddu gan swm llawer llai, rhwng un y cant a 29 y cant (gweler Atodiad 5). Mae'n ddigon posibl bod hyn yn adlewyrchu effaith y cerdyn safon a gyflwynwyd yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau (paragraff 3.4).

3.9 Awgryma'r anghysondeb rhwng prisiannau iawndal a phrisiau cyfartalog y farchnad fod y Cynulliad wedi talu swm sylweddol fwy o iawndal yn 2002 nag y byddai wedi'i dalu pe bai prisiannau wedi adlewyrchu prisiau gwaelodol y farchnad. Er mwyn dangos effaith bosibl yr anghysondeb hwn, pe bai prisiau marchnad dynodol brwselosis neu BSE wedi'u cymhwyso i daliadau iawndal twbercwlosis yn 2002, byddai wedi arwain at ostyngiad o ryw £1.8 miliwn yng ngwariant y Cynulliad. Yn seiliedig ar bris cyfartalog anifeiliaid masnachol a werthir mewn arwerthiannau gwaredu, amcangyfrifwn fod y Cynulliad wedi talu £1.24 miliwn yn fwy na phris gwaelodol y farchnad.

## Roedd prisiannau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid pedigri yn 2000 a 2002 yn sylweddol uwch na phrisiau gwaelodol y farchnad

### Cynyddodd yr iawndal cyfartalog a dalwyd am anifeiliaid pedigri yn sylweddol rhwng 2000 a 2002

3.10 Mae anifeiliaid pedigri yn elfen bwysig o'r anifeiliaid a laddwyd oherwydd twbercwlosis. Cynyddodd y gyfran o anifeiliaid pedigri a brisiwyd o 16 i 31 y cant o'r holl brisiannau a wnaed rhwng 2000 a 2002. Mae'r rhan fwyaf o anifeiliaid pedigri yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda Holstein UK, y gymdeithas fridio ar gyfer gwartheg Holstein Friesian. Dengys eu ffigurau fod nifer yr anifeiliaid a gofrestrwyd yng Nghymru wedi cynyddu 78 y cant rhwng 2000 a 2002.



Ffotograff drwy garedigrwydd cylchgrawn Holstein 6-02

## Ffigur 8

### Cymhariaeth o daliadau iawndal tiwberciwlosis a phrisiau gwaelodol y farchnad yn 2000 a 2002 am anifeiliaid masnachol

**2000**

| Iawndal tb am anifeiliaid masnachol | Taliad iawndal cyfartalog | | Uchafswm prisiant |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | **£778** | | **£4,000** |
| **Gwybodaeth am brisiau'r farchnad fasnachol** | **Pris y farchnad ar gyfartaledd** | **Canran yr oedd yr iawndal cyfartalog a dalwyd yn uwch na gwerth y farchnad** | **Uchafswm pris y farchnad** |
| Arwerthiannau marchnad Defra yng Nghymru a Lloegr (anifeiliaid llaeth)[1, 2] | £532 | 46% | £612 (uchafswm y prisiau cyfartalog ar gyfer safon gorau) |
| Adroddiadau o arwerthiannau gwasgaru yn y wasg ffermio | £603 | 29% | Aneglur |
| Uchafswm iawndal brwselosis sy'n daladwy | £433 | 80% | £468 |
| Uchafswm iawndal BSE sy'n daladwy am achosion BSE a gadarnhawyd | £424 | 83% | £448 |

**2002**

| Iawndal TB am anifeiliaid masnachol | Taliad iawndal ar gyfartaledd | | Uchafswm prisiant |
|---|---|---|---|
| **Cymru gyfan** | **£1,164** | | **£6,500** |
| **Gwybodaeth am brisiau'r farchnad fasnachol** | **Pris y farchnad ar gyfartaledd** | **Canran yr oedd yr iawndal cyfartalog a dalwyd yn uwch na gwerth y farchnad** | **Uchafswm pris y farchnad** |
| Arwerthiannau marchnad Defra yng Nghymru (anifeiliaid llaeth)[1, 2] | £600 | 94% | £951 |
| Adroddiadau o arwerthiannau gwasgaru yn y wasg ffermio | £743 | 57% | Aneglur |
| Uchafswm iawndal brwselosis sy'n daladwy | £560 | 108% | £579 |
| Uchafswm iawndal BSE sy'n daladwy am achosion BSE a gadarnhawyd | £512 | 127% | £586 |


**NOTES**

1. Nid oedd data ar gael ar gyfer Cymru yn unig ar gyfer 2000 ond roedd ar gael ar gyfer 2002. Nid yw'r data sydd ar gael ar anifeiliaid eidion yn gwahaniaethu rhwng stoc bridio a stoc a besgwyd, ac felly nis cynhwyswyd yn y dadansoddiad hwn. Ceir rhagor o fanylion am brisiau eidion cyfartalog yn Atodiad 3.
2. Nid yw'r data sydd ar gael am anifeiliaid eidion yn gwahaniaethu rhwng stoc bridio a stoc a besgwyd, ac felly nis cynhwyswyd yn y dadansoddiad hwn. Ceir rhagor o fanylion am brisiau eidion cyfartalog yn Atodiad 3.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

**Ffigur 9**

**Prisiannau masnachol a phrisiau'r farchnad yn 2000 a 2002**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

3.11 Cynyddodd y prisiant cyfartalog ar gyfer anifeiliaid pedigri 49 y cant rhwng 2000 a 2002 o £1,769 i £2,641. Mae'r cynnydd hwn yn debyg iawn i'r cynnydd o ran anifeiliaid masnachol (paragraff 3.4)[10]. Mae'r cynnydd mewn prisiannau pedigri cyfartalog yn amlwg iawn yn yr ardal a gwmpesir gan swyddfa Caerfyrddin y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, lle gwnaeth y prisiant pedigri cyfartalog fwy na dyblu rhwng 2000 a 2002[11].

## Roedd prisiannau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid pedigri yn sylweddol uwch na gwerthoedd y farchnad

3.12 Mae ein data cymharol ar brisiau'r farchnad ar gyfer anifeiliaid pedigri yn defnyddio'r gwahanol ffynonellau a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer anifeiliaid masnachol. Holstein Friesian yw'r brîd mwyaf cyffredin yng Nghymru. Ar gyfer anifeiliaid pedigri a brisiwyd yn 2002, canolbwyntiodd ein dadansoddiad ar swyddfa Caerfyrddin y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, a phrisiau anifeiliaid Holstein Friesian ar y farchnad oherwydd.

- Caerfyrddin oedd unig swyddfa y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol i gasglu tystysgrifau pedigri a'u gosod ar y ffeil bapur berthnasol;
- daeth 70 y cant o anifeiliaid pedigri a brisiwyd yn 2002 o'r ardal a gwmpesir gan swyddfa Caerfyrddin y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol; ac
- roedd 83 y cant o anifeiliaid pedigri a brisiwyd yng Nghaerfyrddin wedi'u cofrestru â Holstein UK.

Ceir manylion llawn am ein methodoleg yn Atodiadau 2 a 3. Ein ffynonellau cymharol o brisiau'r farchnad ar gyfer anifeiliaid pedigri yn 2000 a 2002 oedd:

- adroddiadau o werthiannau ar wefannau cymdeithasau pedigri;
- gwybodaeth am werthiannau a ddarparwyd gan Holstein UK o 16 o arwerthiannau gwaredu buchesi cyfan Holstein Friesian sy'n dangos yr hyn a ddisgrifir ganddynt fel haen uchaf marchnad Holstein Friesian; a
- dadansoddiad o adroddiadau o werthiannau pedigri Holstein Friesian yn y wasg amaethyddol.

3.13 Nodir canlyniadau ein dadansoddiad yn **Ffigur 10** ac ar ffurf graff yn **Ffigur 11** isod. Dengys Ffigur 10 mai £2,502 oedd y taliad iawndal cyfartalog yn 2002 ar gyfer anifeiliaid Holstein Friesian o'r ardal a

10 Mae Atodiad 6 yn cymharu'r cynnydd ym mhrisiau gwaelodol y farchnad bedigri â'r cynnydd mewn prisiannau twbercwlosis.
11 Mae Atodiad 4 yn rhoi graff sy'n crynhoi'r gwahaniaethol rhwng prisiannau cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri.

## Ffigur 10

### Cymhariaeth o daliadau iawndal tiwberciwlosis a phrisiau gwaelodol y farchnad yn 2000 a 2002 ar gyfer anifeiliaid pedigri

**2000**

| Iawndal tb am bob anifail pedigr | Taliad iawndal ar gyfartaledd | | Uchafswm prisiant |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | **£1,769** | | **£10,000** |
| **Gwybodaeth am brisiau'r farchnad bedigri** | **Pris y farchnad ar gyfartaledd** | **Canran yr oedd yr iawndal cyfartalog a dalwyd yn uwch na gwerth y farchnad** | **Uchafswm pris y farchnad** |
| Pris cyfartalog ym mhob arwerthiant Holstein Friesian[1] | £994 | 78% | £18,375 |
| Pris cyfartalog ym mhob arwerthiant Holstein Friesian ar gyfer arwerthiannau gwaredu buchesi cyfan 'gorau' Holstein Friesian[2] | £1,159 | 53% | £18,375 |
| Pris cyfartalog y data cyfunedig ar gyfer tri brîd[3] | £1,184 | 49% | £18,375 |

**2002**

| Iawndal tb am Holstein Friesians | Taliad iawndal ar gyfartaledd | | Uchafswm prisiant |
|---|---|---|---|
| **Swyddfa Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol Caerfyrddin** | **£2,502** | | **£22,500** |
| **Gwybodaeth am brisiau'r farchnad Holstein Friesian** | **Pris y farchnad ar gyfartaledd** | **Canran yr oedd yr iawndal cyfartalog a dalwyd yn uwch na gwerth y farchnad** | **Uchafswm pris y farchnad** |
| Pris cyfartalog ym mhob arwerthiant Holstein Friesian[1] | £1,220 | 105% | £31,500 |
| Pris cyfartalog ym mhob arwerthiant Holstein Friesian ar gyfer arwerthiannau gwaredu buchesi cyfan 'gorau' Holstein Friesian[2] | £1,654 | 51% | £31,500 |

**2002**

| Iawndal tb am bob anifail pedigri | Taliad iawndal ar gyfartaledd | | Uchafswm prisiant |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | **£2,641** | | **£30,000** |
| **Gwybodaeth am brisiau'r farchnad bedigri** | **Pris y farchnad ar gyfartaledd** | **Canran yr oedd yr iawndal cyfartalog a dalwyd yn uwch na gwerth y farchnad** | **Uchafswm pris y farchnad** |
| Pris cyfartalog y data cyfunedig ar gyfer pedwar brid | £1,640 | 61% | £57,750 |


**NOTES**

1. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y rhai ar gyfer arwerthiannau Holstein Friesians yn haen uchaf y farchnad.
2. Disgrifiodd Holstein UK yr arwerthiannau hyn fel rhai sy'n cynrychioli haen uchaf y farchnad ar gyfer gwartheg Holstein Friesian.
3. Ar gyfer 2000, nid oedd data ar gael ar brisiau'r farchnad ar gyfer brîd Charolais.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

**Ffigur 11**

**Prisiannau pedigri a dangosyddion o bris y farchnad, 2000 a 2002**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

gwmpesir gan swyddfa'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghaerfyrddin. Mae'r ffigur hwn rhwng 51 a 105 y cant yn uwch na dangosyddion cymaradwy pris gwaelodol y farchnad. Mae hyn yn gyson â'r taliad iawndal cyfartalog ar gyfer pob anifal pedigri yn ystod y flwyddyn honno, sef £2,641, rhyw 61 y cant yn uwch na'r data marchnad cyfartalog ar gyfer pedwar brîd.

3.14 Fel yn achos anifeiliaid masnachol, er gwaethaf cyfyngiadau'r data, gallwn ddod i'r casgliad bod taliadau iawndal cyfartalog yn 2000 a 2002 yn sylweddol uwch na thueddiadau gwaelodol y farchnad. Yn seiliedig ar ein gwahanol ddangosyddion o brisiau'r farchnad bedigri, amcangyfrifwn fod y Cynulliad, ar gyfer anifeiliaid pedigri yn 2002, wedi talu £1.34 miliwn mewn iawndal uwchlaw pris gwaelodol y farchnad.

## Nid oedd gan 19 y cant o anifeiliaid Holstein Friesian a brisiwyd yng Nghaerfyrddin yn 2002 statws pedigri llawn

3.15 Er mwyn cyrraedd statws pedigri Holstein UK, mae'n rhaid i ffermwyr fod yn aelodau o'r gymdeithas a chofrestru anifeiliaid o fewn 45 diwrnod ar ôl genedigaeth fel y gellir olrhain y cofrestriadau'n uniongyrchol i lyfr y fuches. Fel arall os mai buchod o dras Holstein Friesian sydd yn y fuches yn bennaf, gall ffermwyr ddewis graddio'r fuches gyfan i statws pedigri. Mae'r broses hon yn cymryd tair cenhedlaeth o fridio. Gelwir y cam cyntaf yn ASR (adran 'A' cofrestr atodol Holstein UK) ac yn cynnwys anifeiliaid sydd â phedigri hyd at 50 y cant. Gelwir yr ail gam yn BSR (adran 'B' cofrestr atodol Holstein UK) ac mae'n cwmpasu anifeiliaid sydd â phedigri hyd at 75 y cant. Mae gan anifeiliaid â statws pedigri llawn bedigri o fwy na 87.5 y cant. Mae'r trothwyon hyn yn adlewyrchu gofynion diffiniad brîd pur yn ôl deddfwriaeth Ewropeaidd.

3.16 Dywedodd Holstein UK wrthym nad ystyrir anifeiliaid sydd ar y ddau gam rhwng gwneud cais am uwchraddio'r fuches gyfan a statws pedigri llawn fel anifeiliaid pedigri llawn. Ym mis Ionawr 2003, dywedodd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol wrth briswyr na ddylid trin anifeiliaid o'r fath fel petaent yn meddu ar statws pedigri llawn at ddibenion prisio. Fodd bynnag, erbyn hynny roedd gan 19 y cant (129 o anifeiliaid) o'r holl anifeiliaid Holstein Friesian a brisiwyd yng Nghaerfyrddin yn 2002 naill ai statws ASR neu statws BSR. Dengys **Ffigur 12** fod prisiant cyfartalog anifeiliaid ASR a BSR, sy'n anifeiliaid masnachol, yn 2002, yn sylweddol uwch na phris cyfartalog y farchnad ar gyfer anifeiliaid pedigri a masnachol fel ei gilydd. Awgryma hyn werth gwael am arian, a bod y Cynulliad wedi talu mwy o iawndal am anifeiliaid ASR a BSR na'u gwerthoedd ar y farchnad.

3.17 Roedd swyddogion y Cynulliad yn pryderu bod rhai anifeiliaid, a brisiwyd fel anifeiliaid pedigri, wedi'u cofrestru ar ôl i'r anifail gael ei nodi fel adweithydd. Archwiliodd Holstein UK sampl o gant o anifeiliaid o'n sampl a allai fod wedi dod o dan y categori hwn. Canfu fod y rhan fwyaf o'r anifeiliaid hyn wedi'u

**Ffigur 12**

**Cymhariaeth o brisiannau anifeiliaid ASR a BSR â phrisiau'r farchnad bedigri a'r farchnad fasnachol**

| | Iawndal ar Gyfartaledd £ | Anifeiliaid masnachol (arwerthiannau gwasgaru) £ | Amrywedd masnachol | Pris y farchnad Holstein Friesian ar gyfartaledd £ | Amrywedd pedigri |
|---|---|---|---|---|---|
| ASR | 1,868 | 743 | 151% | 1,220 | 53% |
| BSR | 1,756 | 743 | 136% | 1,220 | 44% |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

cofrestru gyda'r gymdeithas ymhell cyn i'r anifail adweithio i'r prawf croen, ond y gallai fod achos pryder mewn pump y cant o achosion. Mae'r gymdeithas yn dibynnu i raddau ar onestrwydd ei haelodau, ond roedd yn pryderu digon am y risg bod ffermwyr yn ceisio uwchraddio eu buchesi rhwng canfod twbercwlosis a phrisio anifeiliaid fel y cytunodd i weithredu'r mesurau canlynol ar unwaith o ganlyniad i waith Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru:

- oedi o bedair wythnos rhwng ffermwyr yn gwneud cais i uwchraddio'r fuches gyfan a'r ymweliad cyntaf gan swyddog maes; a
- gofyniad bod angen i ffermwyr wneud datganiad ysgrifenedig yn hytrach na datganiad llafar o statws twbercwlosis y fuches mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion o dwbercwlosis.

## Bu prisiannau cyfartalog yng Nghymru yn sylweddol uwch nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig


3.18 Mae twbercwlosis buchol yn broblem ddifrifol yng Ngogledd Iwerddon, ymhlith rhanbarthau eraill yn Lloegr, a Dyfnaint. Dadansoddwyd lefel y taliadau iawndal yn y ddwy ardal hyn o gymharu â thaliadau iawndal yng Nghymru.

3.19 Yn y flwyddyn ariannol 2002-2003, erbyn diwedd Mawrth 2003, £901 oedd y taliad iawndal cyfartalog ar gyfer y 15,295 o anifeiliaid a laddwyd yng Ngogledd Iwerddon o ganlyniad i dwbercwlosis buchol. Ar gyfer adweithwyr masnachol £755 oedd y cyfartaledd (roedd y cyfartaledd ar gyfer anifeiliaid masnachol yng Nghymru 54% yn uwch). Ar gyfer anifeiliaid pedigri, sef 11 y cant o'r holl anifeiliaid a brisiwyd, £2,090 oedd y taliad iawndal cyfartalog ar gyfer adweithwyr (roedd y cyfartaledd ar gyfer anifeiliaid pedigri yng Nghymru 26% yn uwch).

3.20 Dengys **Ffigur 13**, er bod taliadau iawndal cyfartalog wedi bod yn uwch yng Nghymru nag yng Ngogledd Iwerddon ers 1999, bod yr amrywiant hwn wedi dod yn llawer mwy amlwg yn 2002 nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn cadarnhau'r ddadl y gall y penderfyniad i gyflwyno'r cerdyn safon (prisiant penodol am wartheg) yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau fod wedi arwain at brisiannau cynyddol yng Nghymru (paragraff 3.4) gan na chymhwyswyd y cerdyn safon yng Ngogledd Iwerddon.

**Ffigur 13**

**Cymhariaeth o'r taliad iawndal cyfartalog yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, 1999-2002**




**NODER**

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru yn seiliedig ar flwyddyn galendr y dyddiad prawf; mae'r ffigurau ar gyfer Gogledd Iwerddon yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill o'r flwyddyn galendr honno (er enghraifft yn 1999 mae ffigurau Gogledd Iwerddon yn deillio o'r flwyddyn ariannol 1999-2000).

*Ffynonellau: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon*

3.21 Mae'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn Nyfnaint wedi cadw ei wybodaeth am daliadau iawndal ar lyfrau cyfrifon papur yn draddodiadol, sy'n ei gwneud yn anodd i goladu eu data. O fis Ionawr 2003, cadwyd cofnodion ar gyfrifiadur ganddo, er nad yw'r rhain yn gwahaniaethu rhwng anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri. Roedd y taliad iawndal cyfartalog ar gyfer pob anifail a laddwyd yng Nghymru yn 2002 (£1,624) 27 y cant yn uwch na'r taliad iawndal cyfartalog o £1,280 ar gyfer y 442 o anifeiliaid a laddwyd yn Nyfnaint rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2003.

3.22 Er nad yw prisiau anifeiliaid mewn marchnadoedd gwartheg yn y Deyrnas Unedig yn hollol unffurf o bosibl, nid ydynt mor wahanol â lefelau'r prisiadau cyfartalog (fel arall byddai ffermwyr yng Nghymru yn prynu eu hanifeiliaid yn Nyfnaint a Gogledd Iwerddon).

**PWYNTIAU ALLWEDDOL O RAN 3**

Cynyddodd prisiannau iawndal cyfartalog yng Nghymru 82 y cant rhwng 1999 a 2002. Roedd y cynnydd yn amlwg iawn ar ôl argyfwng clwy'r traed a'r genau.

Bu prisiannau cyfartalog yng Nghymru yn sylweddol uwch na phrisiannau yng Ngogledd Iwerddon a Dyfnaint.

Ar gyfer anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid pedigri, mae ystod o ddangosyddion o bris y farchnad yn 2000 a 2002 yn awgrymu bod taliadau iawndal cyfartalog yn sylweddol uwch na phrisiau'r farchnad.

Yn seiliedig ar ein ffigurau, roedd prisiannau, ar gyfartaledd, o leiaf 50 y cant yn uwch na gwerthoedd y farchnad. O ganlyniad amcangyfrifwn fod y Cynulliad yn 2002 wedi talu tua £2.6 miliwn mewn taliadau iawndal yn fwy nag y byddai'i wneud pe bai prisiannau wedi bod yn gyson â gwerthoedd y farchnad.



# RHAN 4 Mae pwysau chwyddiannol ar brisiannau, nad ydynt yn cael eu monitro'n effeithiol gan y Cynulliad

4.1 Disgrifiodd Rhan 3 y gwahaniaeth rhwng taliadau iawndal cyfartalog a phrisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid iach. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud i sicrhau bod iawndal yn gyson â gwerthoedd y farchnad, o ran ei reolaeth dros y risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses a'i waith monitro cyffredinol.

## Mae perygl y bydd sefyllfa anodd y rhai sy'n prisio anifeiliaid yn chwyddo prisiannau

4.2 Mae gan y trefniadau presennol ar gyfer prisio anifeiliaid risgiau a allai chwyddo prisiannau. Mae hyn yn berthnasol p'un ai swyddogion milfeddygol y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol neu briswyr proffesiynol sy'n prisio anifeiliaid. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn disgrifio'r risgiau hynny. Nid yw'r ffaith bod risgiau yn bodoli yn golygu wrth gwrs eu bod yn arwain at brisiant annibynadwy o reidrwydd. Ac ni fwriedir i unrhyw beth yn y paragraffau canlynol herio uniondeb y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses brisio.

4.3 Swyddogaeth allweddol swyddogion milfeddygol yw rheoli lledaeniad twbercwlosis buchol. Mae gwaredu adweithwyr yn gyflym yn elfen bwysig o reoli'r clefyd. Cadarnhaodd swyddogion milfeddygol eu bod yn ymwybodol iawn pan fyddant yn prisio anifail o'r angen i sicrhau bod yr anifail yn cael ei brisio a'i ladd cyn gynted â phosibl, a'u bod felly o bosibl yn cynnwys swm bach yn ychwanegol at y pris gwirioneddol ar y farchnad, yn eu tyb hwy, yn hytrach nag aros am brisiwr preifat. Mae swyddogion milfeddygol, fel llawer o briswyr, yn gweithio yn y gymuned wledig ac maent yn cydymdeimlo'n fawr iawn â thrafferthion ffermwyr yr effeithiwyd arnynt gan dwbercwlosis buchol (gweler Rhan 2).

4.4 Pan gaiff anifeiliaid eu prisio gan briswyr proffesiynol, o dan y trefniadau presennol mae rhyddid gan ffermwyr i ddewis pwy sy'n prisio eu hanifeiliaid. Dywedodd ffermwyr wrthym eu bod fel arfer yn gofyn i arwerthwr lleol am brisiant. Yn aml bydd yr arwerthwr hwn wedi gwerthu anifeiliaid iach y ffermwr, ac wedi darparu rhai newydd, ers blynyddoedd lawer; mae'r ffermwr yn aml yn gleient cadw'r person sy'n prisio eu hanifeiliaid sâl. Cadarnhaodd y priswyr y siaradasom â hwy y gallent fod mewn sefyllfa anodd o bosibl. Er eu bod yn gweithredu ar ran y Cynulliad yn ffurfiol wrth brisio anifeiliaid - ac yn cael eu talu gan y Cynulliad am eu gwasanaethau - mae ffermwyr hefyd yn ystyried mai eu cynrychiolwr hwy yw'r prisiwr a enwebwyd ganddynt.

4.5 Nid y berthynas â'r ffermwr yw'r unig anhawster a wyneba priswyr. Mae pwysau eraill arnynt, a allai ymddangos yn y ffyrdd canlynol:

- mae priswyr yn cystadlu â'i gilydd, a gallant gael busnes newydd pwysig drwy brisio anifeiliaid â thwbercwlosis buchol. Er enghraifft, mewn un ardal o'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru, mae un prisiwr wedi prisio anifeiliaid mewn dros un o bob tri achos o dwbercwlosis buchol yn ystod deg mis cyntaf 2002. I briswyr gall gwaith prisio anifeiliaid â thwbercwlosis buchol arwain at fusnes arall gan y ffermwr, megis prynu a gwerthu anifeiliaid iach yn eu marchnad;

- mae perygl y bydd unrhyw brisiannau sy'n uwch na gwerthoedd gwaelodol y farchnad yn gosod cynsail neu isafbris ar gyfer prisiannau yn y dyfodol - gelwir y broses hon o gynnydd graddol yn 'valuation creep' a gwelwyd enghreifftiau yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau, pan aeth gwerthoedd y cerdyn safon (paragraff 3.4) yn isafswm lefelau iawndal i bob diben ar gyfer anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt. Gall y rhai sy'n prisio anifeiliaid fod mewn sefyllfa anodd os bydd prisiwr neu swyddog milfeddygol arall wedi rhoi prisiant uchel iawn ar fferm gyfagos, gan fod hyn yn gallu creu isafswm meincnod ar gyfer prisiannau eraill yn yr ardal pan na fo marchnad yn weithredol i ostwng prisiannau eto. Mae ffermwyr eraill yn disgwyl i brisiant eu hanifeiliaid gyfateb â'r lefelau prisio hyn neu fod yn uwch na hwy. Nid yw priswyr am golli busnes ac, os yw priswyr neu swyddogion milfeddygol eraill yn rhoi prisiannau uwch, maent o dan bwysau i roi prisiannau cyfatebol; a

- gall lefelau uchel o dwbercwlosis buchol effeithio ar fusnesau arwerthwyr yn ogystal â ffermwyr. Gall cyfyngiadau ar symud anifeiliaid atal eu cleientiaid rhag gwerthu anifeiliaid iach neu brynu rhai newydd, sy'n golygu bod rhai marchnadoedd da byw lleol yn colli busnes, o leiaf hyd nes y bydd y ffermwyr yn prynu anifeiliaid newydd ar ôl i'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid gael eu codi - yn gyffredinol drwy'r farchnad leol.

4.6 Nid oes modd canfod yr union effaith y mae'r risgiau hyn sy'n ymddangos wedi'i chael ar lefelau iawndal cyfartalog. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'r system yn gweithredu yn golygu bod effaith gydgasgledig prisiadau unigol wedi arwain at ddatblygiad marchnad wahanol ar gyfer iawndal twbercwlosis i bob diben, sy'n gysylltiedig â'r

farchnad ar gyfer anifeiliaid iach ond yn gweithredu'n annibynnol arni. Mae i'r farchnad hon ei deinamig ei hun, a nodweddir gan gynnydd graddol mewn prisiannau. Mae ei hamgylchiadau hefyd yn wahanol i'r hyn a geir yn y farchnad wirioneddol - nid yw ffermwyr am werthu anifeiliaid, tra bod y prynwr, y Cynulliad, yn awyddus iawn i brynu'r anifeiliaid er mwyn hwyluso'r gwaith o reoli'r clefyd. O ganlyniad mae'r gwerthwr mewn sefyllfa gryf iawn, yn creu anhawsterau i briswyr ac yn gallu lleoli'r prisiwr (y Cynulliad) mewn safle wan. Nid ymgeisiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethold Cymru i archwilio prisiadau unigol mewn unrhyw ffordd: mae gweithrediadau priswyr proffesiynol y tu allan i'n cyfrifoldeb ac felly nid ydym yn beirniadu eu cyflawniad. Beth bynnag, mae gan swyddogion y Cynulliad bryderon ynglŷn â'r ymwahaniad ymddangosiadol sy'n tyfu rhwng brisiau ar y farchnad a lefelau iawndal.

## Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn dibynnu ar brisiannau deuol i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses brisio

4.7 Y prif ddull a ddefnyddir gan y Cynulliad (drwy'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, sy'n gweithredu fel ei asiantau) o roi mwy o hyder ynglŷn â chywirdeb y prisiant terfynol yw'r defnydd o brisiannau deuol (lle y gofynnir i ail brisiwr sy'n cynrychioli'r Cynulliad weithio ochr yn ochr â'r prisiwr a enwebwyd gan y ffermwr). Cafodd bron hanner yr anifeiliaid (44 y cant) eu prisio gan briswyr deuol yn 2002 (Ffigur 5). Mae'r defnydd o briswyr deuol wedi dod yn fwy cyffredin nag y bu, gan adlewyrchu'r pryder am lefelau prisiannau. Yn ôl swyddogion y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, mae effeithiolrwydd yr ail brisiwr yn dibynnu i raddau helaeth ar yr unigolyn a gyfarwyddwyd, a pha mor annibynnol ydyw. Ceir yr annibyniaeth fwyaf lle mae'r prisiwr yn dod o ardal arall, yn enwedig ardal lle nad oes fawr ddim o dwbercwlosis os o gwbl, gan fod priswyr mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion yn gweithredu'n rheolaidd ar ran ffermwyr a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol. Er i'r rhan fwyaf o swyddogion y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol dderbyn bod y defnydd o ail brisiwr wedi cael rhywfaint o effaith o ran gostwng prisiannau, nid oedd hyn bob amser yn llwyddo i ostwng prisiannau i lefel gwerthoedd gwaelodol y farchnad. Er bod swyddogion y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol wedi dweud wrthym eu bod fel arfer yn cyfarwyddo priswyr a fyddai'n cynrychioli eu buddiannau orau yn eu tyb hwy, nid oedd system ffurfiol o werthuso gwasanaeth ail briswyr.

4.8 Yr unig reolaeth arall a arferir weithiau gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yw gofyn am gyfiawnhad o brisiannau unigol. Nid yw'n ofynnol i swyddogion y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol ofyn am gyfiawnhad gan briswyr gan mai rheoli clefyd yw eu swyddogaeth hwy. Mae rheolwyr y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn cymeradwyo pob prisiant gan gadarnhau i'r broses briodol gael ei dilyn, er mwyn ardystio y dylid talu'r iawndal. Fodd bynnag, pan fydd rheolwr y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol o'r farn bod prisiant yn rhy uchel, bydd weithiau yn ysgrifennu at y prisiwr i ofyn am gyfiawnhad dros y prisiant. Nid yw'r arfer hwn erioed wedi arwain at ostwng prisiant, ond mae'n bosibl ei fod wedi atal priswyr rhag gwneud prisiannau rhy uchel yn y dyfodol. Fel arfer, mae'r prisiwr yn ymateb i'r llythyr drwy roi esboniad manwl o werth yr anifail dan sylw. Fodd bynnag, nid yw staff y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn gymwys i werthuso cyflwyniadau o'r fath a, sut bynnag, mae'r anifeiliaid wedi'u lladd erbyn hynny, felly ni allant ofyn am ail farn.

## Nid yw'r Cynulliad yn monitro taliadau iawndal yn effeithiol

4.9 Mae'r Cynulliad, yn ogystal â'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, yn canolbwyntio ar reoli clefydau. Nid yw nifer cynyddol yr achosion o dwbercwlosis wedi arwain at ddatblygu systemau a phrosesau effeithiol o fonitro a rheoli taliadau iawndal i gyfateb â'r cynnydd hwnnw. Er gwaethaf y gwariant o ychydig dros £8 miliwn a ragwelwyd yn 2002-03, nid oes gan y Cynulliad broses o fonitro taliadau iawndal cyfartalog. Dim ond gwneud y taliadau iawndal a wna ar ôl iddynt gael eu hawdurdodi gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol (ac ni ddisgwylir i'r Gwasanaeth fonitro lefelau iawndal). Nid yw'r Cynulliad fel mater o drefn yn cadw unrhyw wybodaeth reoli am lefelau iawndal cyfartalog a phroffil taliadau iawndal dros y blynyddoedd blaenorol.

4.10 Y rheswm dros y diffyg monitro yn rhannol yw safon wael iawn systemau gwybodaeth y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol (nid yw hyn yn unigryw i Gymru). Cyn mis Ionawr 2003, gweithredai tair swyddfa'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru daenlenni cyfrifon ariannol gwahanol gan gynnwys gwahanol wybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau.

Roedd y taenlenni'n sylfaenol iawn ac nid oeddent wedi'u cysylltu â VETNET, y system wybodaeth filfeddygol a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol i gadw gwybodaeth am brofion, canlyniadau profion a chyfyngiadau ar symud anifeiliaid. Ac nid oeddent yn rhan o rwydwaith y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, nac ar gael i'r Cynulliad ychwaith. Yn y bôn nid oeddent yn ddim amgenach na fersiwn cyfrifiadurol o lyfr cyfrifon papur sylfaenol.

4.11 Ymhlith y wybodaeth hanfodol a oedd ar goll roedd, yn y rhan fwyaf o achosion:

- disgrifiad sylfaenol o'r anifail;
- p'un ai anifail masnachol ynteu pedigri, anifail eidion ynteu llaeth ydoedd;
- oedran, rhyw a phwysau'r anifail, faint o laeth yr oedd yn ei gynhyrchu ac a oedd yn gyflo ai peidio;
- sut y cafodd yr anifail ei brisio; ac
- ar gyfer anifeiliaid pedigri, brîd a dosbarthiad yr anifail, dyddiad ei dystysgrif bedigri a chadarnhad bod gan yr anifail statws pedigri llawn yn hytrach na chael ei gynnwys ar gofrestr atodol y gymdeithas fridio (ASR neu BSR).

O ganlyniad prin y gellid defnyddio'r taenlenni ar gyfer monitro a rheoli gwariant y Cynulliad ar iawndal twbercwlosis (Roedd rhan helaeth o'r astudiaeth hon yn ymwneud â chyfuno'r gwahanol daenlenni cyfrifon yn un gronfa ddata a'n galluogodd i ddadansoddi'r wybodaeth.)



**PWYNTIAU ALLWEDDOL O RAN 4**

Nid yw'r Cynulliad yn gwneud digon i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r system o brisio anifeiliaid. Nid yw bodolaeth risgiau yn golygu o angenrheidrwydd eu bod nhw'n achosi prisiadau annibynadwy a nid bwriad ein canfyddiadau yw herio gonestrwydd y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses prisio.

Mae'r rhai sy'n prisio anifeiliaid, boed yn briswyr preifat neu'n swyddogion milfeddygol, mewn sefyllfa anodd, oherwydd rhyddid ffermwyr i ddewis prisiwr, effeithiau nifer fawr o achosion o dwbercwlosis ar fusnes arwerthwr, cystadleuaeth rhwng priswyr am y gwaith ychwanegol a all ddeillio o brisiannau twbercwlosis a "chynnydd graddol mewn prisiannau", lle mae prisiannau uchel yn mynd yn feincnod neu'n isafbris ar gyfer prisiadau yn y dyfodol.

Mae effaith gydgasgledig penderfyniadau unigol y rhai sy'n prisio anifeiliaid wedi cynhyrchu marchnad eilaidd ar gyfer da sy'n dioddef o'r haint sy'n gysylltiedig â hi, ond sy'n gweithredu'n annibynnol o'r farchnad gychwynnol ar gyfer anifeiliaid iach.

Mae'r Cynulliad yn dibynnu ar y defnydd o ail briswyr i gynrychioli eu buddiannau er mwyn rheoli prisiannau. Ymddengys fod effeithiolrwydd yr arfer hwn yn amrywio gan ddibynnu ar annibyniaeth ac agwedd yr ail brisiwr. Mae'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol hefyd yn ysgrifennu at briswyr i ofyn am gyfiawnhad dros brisiannau - er nad yw hyn wedi arwain at ostwng unrhyw brisiant a amheuwyd, mae'r swyddogion o'r farn y gall yr arfer atal prisiannau uchel.

Nid oes gan y Cynulliad broses o fonitro taliadau iawndal, er gwaethaf y ffaith y rhagwelir y bydd y gwariant dros £8 miliwn yn 2002-03. Gwaethygir y sefyllfa hon oherwydd cyfyngiadau systemau gwybodaeth y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol o gofnodi taliadau iawndal, nad ydynt yn cofnodi llawer o fanylion sylfaenol am yr anifeiliaid a brisiwyd.

4.12 Mae'r daenlen unffurf newydd sydd wedi'i datblygu'n ddiweddar ac a ddefnyddir gan bob swyddfa, yn welliant. Fodd bynnag, dim ond un defnyddiwr sy'n gallu defnyddio'r daenlen ar unrhyw adeg ac, er bod y taenlenni ym mhob swyddfa yn rhannu'r un fformat, ni chânt eu cyfuno'n un ffynhonnell o wybodaeth i Gymru gyfan. Ni fydd gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael hyd nes y defnyddir cronfa ddata sy'n rhan o'r rhwydwaith llawn, wedi'i chysylltu â'r system wybodaeth filfeddygol.


236
290

# RHAN 5 Mae gwersi o fannau eraill yn awgrymu bod cryn le i'r Cynulliad wella'r ffordd y mae'n rheoli'r broses brisio

5.1 Disgrifiodd Rhan 4 y ffactorau a allai achosi proses chwyddiannol o gynnydd graddol ('valuation creep') a chyfyngiadau y rheolaeth a arferir gan y Cynulliad dros y broses ar hyn o bryd. Yn y rhan hon o'r adroddiad felly rydym yn ystyried sut y gallai'r Cynulliad wneud rhagor i reoli lefel y prisiannau ac ystyried arferion a ddefnyddiwyd gan amrywiaeth o sefydliadau eraill er mwyn sicrhau nad yw taliadau iawndal yn cynyddu. Gorffennwn drwy ystyried y dulliau o reoli cost iawndal am dwbercwlosis buchol sy'n cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill, ac yn y Deyrnas Unedig ar gyfer clefydau hysbysadwy eraill.

## Dylai'r Cynulliad wneud llawer rhagor i sicrhau ei hun bod prisiannau'n rhesymol

5.2 Yn 2002-03, gwariodd y Cynulliad £234,000 ar wasanaethau priswyr preifat ac ychydig dros £8 miliwn mewn taliadau iawndal yn seiliedig ar brisiannau. Er gwaethaf hyn, ar wahân i'r defnydd amrywiol o brisiannau deuol, nid oes gan y Cynulliad drefniadau i reoleiddio perfformiad y priswyr y mae'n talu am eu gwasanaethau. Er enghraifft, nid oes gan y Cynulliad unrhyw feini prawf y mae'n rhaid i brisiwr gydymffurfio â hwy er mwyn darparu gwasanaethau, megis aelodaeth o gorff proffesiynol neu lefel o brofiad. Mae'r ffaith nad yw'r ffurflen brisio ei hun yn gyfredol yn arwydd o'r diffyg sylw a roddir i'r maes hwn - mae'r ffurflen yn cynnwys nodiadau er arweiniad sy'n dal i gyfeirio at bolisi sy'n dyddio o gyfnod cyn Awst 1998 ar dalu iawndal yn seiliedig ar werth ddynodol ar y farchnad. (Mae'r pwynt hwn hefyd yn berthnasol i'r ffordd y caiff y prisiannau eu rheoli yn Lloegr.)

5.3 Mewn sawl maes arall o wariant cyhoeddus, lle mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn prynu gwasanaethau oddi wrth gyflenwyr preifat, ceir fframwaith clir y mae perfformiad cyflenwyr yn cael ei fonitro yn unol ag ef. Fel arfer mae fframwaith o'r fath yn cynnwys cosbau a threfniadau ar gyfer cael gwared ar gyflenwyr nad yw eu gwasanaethau yn cyrraedd y safon perfformiad gofynnol, wedi'i ategu gan bartneriaeth glir a threfniadau cyfathrebu i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth mor uchel â phosibl. Nid oes dim o'r trefniadau hyn ar waith yng Nghymru: ni chaiff y Cynulliad fawr o gyswllt â'r priswyr sy'n darparu gwasanaethau ar ei ran, os o gwbl.

5.4 Mae Defra wedi gwneud newidiadau i'r fframwaith ar gyfer prisio anifeiliaid sy'n dioddef o 'glefydau estron' (megis clwy'r traed a'r genau) sy'n gofyn am ymateb cyflym er mwyn dod â hwy o dan reolaeth cyn gynted â phosibl. Nid yw twbercwlosis buchol yn glefyd estron ond mae'n glefyd endemig. Erbyn hyn mae rhestr o briswyr cymeradwy y gellir eu defnyddio os a phan fydd achosion o glefyd estron. Caiff gwaith y priswyr cymeradwy ei fonitro gan grŵp o uwch briswyr.

5.5 Yng ngweddill yr adroddiad hwn rydym yn cymharu trefniadau yng Nghymru â threfniadau a ddefnyddir gan eraill, sydd, ar yr olwg gyntaf, wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth reoli costau iawndal: cwmnïau yswiriant da byw, y mae ganddynt fuddiant ariannol uniongyrchol mewn sicrhau bod prisiant anifeiliaid yn gywir ond nad ydynt ymwneud â rheoli clefydau; ac Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon lle y bu taliadau iawndal cyfartalog yn llawer is (paragraff 3.19). Rydym hefyd yn ystyried trefniadau ar gyfer rheoli lefelau iawndal am dwbercwlosis buchol mewn gwledydd eraill, ac yn y Deyrnas Unedig ar gyfer clefydau eraill anifeiliaid.

## Gallai'r Cynulliad wella ei reolaeth drwy ddysgu gwersi allweddol o'r diwydiant yswiriant da byw a Gogledd Iwerddon

5.6 Mae gwersi allweddol am reoli cost digolledu ffermwyr o'r diwydiant yswiriant da byw preifat a Gogledd Iwerddon. Er bod rhai amgylchiadau yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon, mae ei systemau yn rhoi meincnod ar gyfer rheolaeth fwy effeithiol o'r broses brisio yng Nghymru.

5.7 Ymgynghorwyd â dau o'r prif ddarparwyr yswiriant da byw yng Nghymru er mwyn cael gwybodaeth am eu dulliau o reoli costau, o ran yswiriant rhag twbercwlosis a'r polisïau da byw cyffredinol. Mae yswiriant rhag twbercwlosis yn rhoi taliadau sy'n helpu i wrthbwyso colledion canlyniadol ffermwr, yn ychwanegol at iawndal a dalwyd gan y Cynulliad am werth yr anifail dan sylw ar y farchnad. Mae un darparwr yswiriant wedi rhoi'r gorau i roi iawndal yn seiliedig ar gyfran o daliad iawndal y Cynulliad yn ddiweddar am iddo gredu nad oedd prisiant yr anifeiliaid, ym marn y cwmni, yn debyg o gwbl i werthoedd gwirioneddol y farchnad. Yn lle hynny dechreuodd y cwmni dalu hyd at gyfran o uchafswm gwerth anifail yn ei fuches a ddatgelwyd gan ffermwr. Roedd yswiriant da byw cyffredinol yn fwy perthnasol i'r astudiaeth hon, gan ei fod yn seiliedig ar werth yr anifail dan sylw ar y farchnad. Defnyddiodd cwmnïau yswiriant sawl ffordd o reoli costau, a nodir yn Astudiaeth Achos 4.

ASTUDIAETH ACHOS 4

**Mesurau rheoli cost a ddefnyddir gan yswirwyr da byw**

- gofyniad i ddeiliaid polisi ddatgelu uchafswm gwerth unrhyw anifail yn eu buches wrth gynnig polisi;
- cyfeirio prisiannau anarferol, neu rai sy'n arbennig o uchel, at banel o briswyr arbenigol;
- ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr roi tystiolaeth i ategu prisiannau uchel iawn, er enghraifft, anfonebau gwerthiant, tystiolaeth o'r gymdeithas fridio, canlyniadau sioeau;
- prisiant unigol o anifeiliaid gwerth dros £3,000 (7 y cant o'r holl brisiannau twbercwlosis yn 2002) gan arbenigwr yn y brîd dan sylw, yn hytrach nag arwerthwr lleol y deiliad polisi; a
- symudiad cyffredinol tuag at yswiriant yn seiliedig ar risg, lle mae yswiriant a phremiymau yn dibynnu ar fesurau biodiogelwch, systemau ffermio a'r cyfnodau rhwng profion, gyda gostyngiadau am ffermwyr sy'n dilyn arfer gorau yn y meysydd hyn.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*



5.8 Fel ym Mhrydain Fawr, mae iawndal yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn seiliedig ar werth llawn anifail ar y farchnad, ond mae'n gweithredu o dan offerynnau statudol a wnaed yng Ngogledd Iwerddon. Bu prisiannau cyfartalog yng Ngogledd Iwerddon yn is nag yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf (paragraffau 3.18-3.22).

5.9 Y gwahaniaeth allweddol rhwng y trefniadau yng Ngogledd Iwerddon a Chymru yw mai dim ond tua un y cant o brisiannau a wneir gan briswyr preifat yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (yr Adran) yn cyflogi wyth swyddog prisio, sy'n prisio pob anifail yn y lle cyntaf, p'un a ydynt yn cael eu prisio gan brisiwr preifat wedyn ai peidio. Maent yn mynd i farchnadoedd, arwerthiannau gwaredu ac arwerthiannau anifeiliaid. [Yn lle cyflogaeth uniongyrchol, wrth gwrs, gellid gosod prisiannau ar gontract i banel o briswyr cymeradwy, y byddai disgwyl iddynt weithio o fewn canllawiau clir iawn o ran y broses i'w dilyn a'u prif gyfrifoldeb i'r Cynulliad. Dengys **Ffigur 14** fod panel o'r fath yn gweithredu yng Ngweriniaeth Iwerddon, lle mae priswyr yn cael gwybodaeth wythnosol fanwl iawn am brisiau'r farchnad.]

5.10 Os na ellir cytuno ar brisiant gyda ffermwr, mae'r Adran yn rhoi dewis o dri phrisiwr i'r ffermwr (wedi'u dewis ar sail arbenigedd sy'n berthnasol i'r anifeiliaid i'w prisio) o'i phanel o briswyr cymeradwy. Mae'r Adran wrthi'n diwygio amodau aelodaeth o'r panel ar hyn o bryd. Mae canfyddiadau'r prisiwr annibynnol yn derfynol ac yn gyfrwymol ar y ffermwr a'r Adran.

5.11 Os caiff anifail ei brisio ar fwy na £1,500 (roedd 40 y cant o brisiannau yng Nghymru yn 2002 yn uwch na'r lefel hon), mae'n rhaid i'r swyddog prisio neu'r prisiwr yng Ngogledd Iwerddon gwblhau ffurflen fanwl (gyda gwybodaeth am statws pedigri, perfformiad, gwerth yr epil a llwyddiant mewn sioeau, er enghraifft) er mwyn cyfiawnhau'r prisiant. Lle y bo'n briodol, mae swyddogion prisio yn cyd-drafod yn agos â chymdeithasau pedigri. Er enghraifft, mae swyddogion prisio wedi mynd ar drywydd materion megis tystysgrifau pedigri nad oeddent yn cyfateb â'r anifeiliaid a brisiwyd (gan arwain at ddiddymu aelodaeth ffermwr o'r gymdeithas fridio); ac anifail nad oedd nifer y dannedd a oedd ganddo yn cyfateb â'r flwyddyn geni a gofnodwyd ar y dystysgrif bedigri (aeth y mater hwn gerbron y llys).

5.12 Defnyddir system technoleg gwybodaeth gynhwysfawr i ategu'r broses brisio yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cynnwys gwybodaeth drylwyr am bob anifail, gan gynnwys dyddiad geni a hanes ei symudiadau. Mae hyn yn galluogi swyddogion prisio i chwilio am brisiadau presennol anifeiliaid tebyg, ac olrhain hanes yr anifail, cyn ei brisio. Mae'r wybodaeth yn llawer mwy manwl na'r hyn sydd ar gael yng Nghymru. Mewn gwrthgyferbyniad â'r arfer cyfredol yng Nghymru, os daethpwyd ag anifeiliaid ar y fferm yn ddiweddar, mae'r swyddog prisio yn darganfod faint o arian y talodd y ffermwr amdanynt (o'u cofnodion o werthiannau a fynychwyd ganddynt, neu drwy ofyn i'r ffermwr neu i'r arwerthwr a werthodd yr anifail).

5.13 Dywedodd swyddogion prisio wrthym fod rhai ffermwyr yng Ngogledd Iwerddon wedi dechrau cyfarwyddo priswyr o Brydain Fawr i brisio eu hanifeiliaid yn breifat yn ddiweddar. Ambell waith gwnaed prisiant o'r fath ar ôl canfod twbercwlosis; dro arall roedd y prisiannau yn rhai rhagweithiol rhag ofn i dwbercwlosis gael ei ganfod wedyn.

**Ffigur 14**

## Gwahanol seiliau iawndal

**Cyfran o werth y farchnad ac ardoll- Seland Newydd**

Yn Seland Newydd, caiff ffermwyr iawndal am dwbercwlosis ar sail 65 y cant o werth teg yr anifail ar y farchnad. Mae gwerthoedd y farchnad yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan Fwrdd Cig Seland Newydd a Bwrdd Cynnyrch Llaeth Seland Newydd ar gyfer gwartheg eidion a gwartheg godro yn y drefn honno. Ariennir taliadau iawndal drwy ardoll ar bob anifail llawndwf (gwartheg) a leddir yn Seland Newydd.

**Uchafbris- Gweriniaeth Iwerddon**

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, telir iawndal am dwbercwlosis ar sail gwerth llawn yr anifail ar y farchnad, hyd at uchafbris o 2,540 Ewro (£1,709)[1] yr anifail, gydag iawndal hyd at 3,175 Ewro (£2,136)[1] yn cael ei roi am un tarw pedigri stoc fesul achos. Caiff anifeiliaid eu prisio gan briswyr annibynnol a ddewisir o banel o dros 60. Mae priswyr y panel yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brisiau'r farchnad bob wythnos gan adran y llywodraeth perthnasol ac maen nhw'n cyflawni gwaith prisio yn unol a chanllawiau manwl wedi'u paratoi gan yr adran. Yn ogystal gall yr adran ostwng iawndal os torrir ei rheolau, megis ymyrryd â phrofion, gwrthod cynnal profion a diffyg cydymffurfiad â rheoliadau adnabod.

Yn wahanol i gyfraith y Deyrnas Unedig, nid yw cyfraith Iwerddon yn rhoi'r hawl i'r Gweinidog yn orfodol waredu anifeiliaid nad ydynt yn adweithwyr. Mae'n rhaid cytuno ar ladd anifeiliaid a fu mewn cysylltiad ag adweithydd gyda'r ffermwr. Pan mae'r adran eisiau cael gwared o'r holl fuches neu ran fwyaf ohoni (adnabyddir fel di-boblogaeth), er mwyn diogelu eu cytundeb gwirfoddol i symud anifeiliaid er mwyn eu lladd. Mae hawl gan ffermwyr diffinio grantiau ychwanegol (ar ben gwerth yr anifeiliaid ar y farchnad).

Mewn sefyllfaoedd sy heb fod yn ddiboblogiad, mae dau grant ychwanegol arall yn daladwy i ffermwyr, yn ddarostyngedig i amodau penodol: sy'n berthnasol pan symudir mwy na deg y cant y fuches, i ychwanegu at yr incwm (nes y codir cyfyngiadau symud) a'r llall pan fo cyfyngiadau symud hir mewn lle, i ad-dalu costiau porthiant ychwanegol. O ganlyniad, o dan amgylchiadau penodol, mae'r llywodraeth yn talu grantiau ychwanegol cyfyngedig (yn ychwanegol at werth yr anifail ar y farchnad) i ffermwyr.

**Iawndal safonol- yr Eidal**

Yn yr Eidal, caiff anifeiliaid yr effeithiwyd ganddynt gan dwbercwlosis eu prisio yn ôl 'tabl prisio' a gyfrifir bob blwyddyn gan y llywodraeth. Mae dwy raddfa, ac mae'r uchaf yn cyfeirio at anifeiliaid pedigri cofrestredig. Mae'r gyfradd iawndal safonol ar gyfer 2002 yn cynyddu hyd at uchafswm taliad, sy'n cyfateb â £400.

**Prisiau marchnad dynodol - iawndal am frwselosis a bse yn y deyrnas unedig**

Yn y Deyrnas Unedig, telir iawndal am anifeiliaid sy'n dioddef o frwselosis yn ôl pris marchnad dynodol misol, sy'n seiliedig ar brisiau'r farchnad ddau fis yn gynharach ar gyfer anifeiliaid masnachol o sampl o naw marchnad (mae hyn yn cynnwys un yng Nghymru).

Ar gyfer BSE, mae pris marchnad dynodol ar gyfer anifeiliaid yr amheuir bod BSE arnynt. Lle y cadarnheir BSE wedyn, mae'r iawndal yn 100 y cant o'r pris marchnad dynodol. Lle na chadarnheir BSE, mae'r iawndal yn 125 y cant o bris y farchnad.

Mae iawndal am epil anifeiliaid â BSE yn seiliedig ar dabl o brisiannau, sy'n amrywio yn ôl oedran yr anifail a'r math o anifail.

**NOTE**

1. Yn seiliedig ar y gyfradd gyfnewid ar 21 Mawrth 2003.

*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Anifeiliaid Seland Newydd, Adran Amaethyddiaeth a Bwyd Gweriniaeth Iwerddon, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a Defra*

## Rheolir lefelau iawndal am dwbercwlosis mewn gwledydd eraill, ac yn y Deyrnas Unedig am glefydau eraill, mewn sawl ffordd

5.14 Defnyddir sawl dull o gyfrifo iawndal am dwbercwlosis mewn gwledydd eraill. O fewn y Deyrnas Unedig, mae trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo iawndal am glefydau eraill. Noda Ffigur 14 y trefniadau ar gyfer iawndal am dwbercwlosis yn Seland Newydd, yr Eidal a Gweriniaeth Iwerddon, a'r trefniadau yn y Deyrnas Unedig ar gyfer brwselosis ac enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE).

5.15 Gall dulliau o'r fath olygu bod y llywodraeth yn talu llai na gwerth llawn pob anifail a laddwyd ar y farchnad. (Yn yr achosion hyn, disgwylir i ffermwyr drefnu yswiriant lle mae gwerth yr anifail ar y farchnad yn uwch na'r lefel o iawndal sy'n daladwy. Mewn rhai achosion, ceir ardoll diwydiant sy'n cyfrannu at y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad a'r iawndal.) Eto i gyd, maent yn wersi defnyddiol eraill o ran sut y gallai'r Cynulliad, heb ddatblygu polisi newydd, gael mwy o afael ar y broses iawndal.

**PWYNTIAU ALLWEDDOL O RAN 5**

Nid oes gan y Cynulliad fframwaith ar gyfer rheoleiddio'r rhai sy'n prisio anifeiliaid, nac i reoli eu perfformiad.

Mae'r rheolaethau'n well yng Ngogledd Iwerddon ac o fewn y diwydiant yswiriant da byw. Gallai'r Cynulliad ddysgu gwersi gwerthfawr gan y ddau. Mae Gogledd Iwerddon yn cyflogi ei swyddogion prisio ei hun sy'n prisio pob anifail. Lle y cyfarwyddir priswyr preifat, cyfyngir dewis y ffermwyr o briswyr i ddetholiad a ddarparwyd gan yr Adran.

Mewn gwledydd eraill, ac ar gyfer clefydau megis BSE a brwselosis yn y Deyrnas Unedig, mae iawndal yn seiliedig ar ffactorau heblaw am werth llawn ar y farchnad.

Gyda'i gilydd, mae profiad Gogledd Iwerddon, y diwydiant yswiriant da byw a mannau eraill yn awgrymu bod angen i'r Cynulliad gymryd camau mewn sawl maes er mwyn cyflawni ei bolisi presennol sef talu iawndal ar lefel gwerthoedd cyfredol y farchnad. Ymhlith y meysydd posibl ar gyfer gweithredu mae:

- cyflogi swyddogion prisio yn uniongyrchol, neu ddefnyddio panel cyfyngedig o briswyr cymeradwy sy'n gweithio yn unol â chanllawiau clir iawn;
- ail brisiwr cwbl annibynnol (os parha'r arfer hwn), gan gynnwys annibyniaeth ddaearyddol;
- parodrwydd i herio prisiannau sy'n ymddangos yn rhy uchel, gan gynnwys mynd gerbron cymrodeddwr neu'r llys yn achos anghytundeb amlwg;
- gofyniad i gael cyfiawnhad llawnach dros brisiannau sy'n wahanol iawn i'r arfer;
- fel mater o drefn gofyn am ragor o wybodaeth ddogfennol am anifeiliaid a brisiwyd, megis tystiolaeth o'r pris a dalwyd gan y ffermwr am yr anifail; a
- system gwybodaeth reoli soffistigedig sy'n hwyluso gwaith monitro priodol gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a'r Cynulliad.



# ATODIAD 1

## Canfyddiadau allweddol adroddiadau diweddar ar argyfwng clwy'r traed a'r genau gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus



1 Mae dau adroddiad diweddar wedi archwilio taliadau iawndal yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001. Mae'r atodiad hwn yn nodi'r canfyddiadau allweddol sy'n berthnasol i daliadau iawndal sy'n deillio o'r adroddiadau canlynol:-

- adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease* (Sesiwn HC939 2001-2002: 21 Mehefin 2002); ac

- Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus *The 2001 outbreak of foot and mouth disease*, pumed adroddiad sesiwn 2002-03, HC 487.

## Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau 2001

2 Ymhlith ei ganfyddiadau allweddol, canfu'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol:-

**'Bod anawsterau o ran gweinyddu'r cynlluniau iawndal a thaliadau i ffermwyr.** Cafodd ffermwyr iawndal am anifeiliaid a laddwyd at ddibenion rheoli clefyd a thaliadau am anifeiliaid a laddwyd o dan y Cynllun Lles Da Byw (Gwaredu). Gan fod cynifer o achosion bu'r ddau gynllun o dan bwysau anferth ac arweiniodd hyn at gostau uwch nag y byddent wedi bod fel arall o dan amgylchiadau mwy arferol.

**Bod problemau o ran y cynllun iawndal am anifeiliaid a laddwyd wedi arwain at gynyddu costau'r Adran.** Talodd yr Adran dros £1.1 biliwn mewn iawndal i ffermwyr am ladd eu hanifeiliaid. Priswyr proffesiynol oedd yn penderfynu ar yr iawndal i'w dalu. Tueddodd eu prisiadau gynyddu wrth i fwy a mwy o anifeiliaid gael eu lladd gan eu bod yn disgwyl i'r prinder stoc o ganlyniad gael ei adlewyrchu mewn prisiau cynyddol ar ôl i'r marchnadoedd ailagor. Roedd cynlluniau wrth gefn yr Adran yn rhagweld y byddai uwch briswyr yn cael eu penodi i fonitro prisiadau ond ni chymerwyd camau i benodi staff o'r fath tan mis Gorffennaf 2001.

**Bod yr ymgais i bennu cyfraddau safonol ar gyfer iawndal wedi cyfrannu at gynnydd mewn prisiau.** Cyflwynwyd cyfraddau safonol ar gyfer anifeiliaid a laddwyd ar 22 Mawrth 2001 oherwydd credwyd bod y broses brisio yn oedi'r broses o ladd anifeiliaid ar safleoedd heintus. Disgwyliai'r Adran y byddai o leiaf 70 y cant o ffermwyr yn derbyn y cyfraddau talu safonol yn hytrach na cheisio prisiannau unigol. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, dim ond 4 y cant o ffermwyr a ddefnyddiodd y cyfraddau safonol. Dewisodd y rhan fwyaf benodi prisiwr. Gweithredodd y cyfraddau safonol fel isafswm pris ar gyfer prisiadau a chyfrannodd hyn at gynnydd yn yr iawndal a dalwyd. Cydnabu'r Adran nad oedd y cyfraddau safonol yn cael yr effaith a ddymunwyd ac fe'u diddymodd ar 30 Gorffennaf 2001.'

## Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar argyfwng clwy'r traed a'r genau 2001

3 Cyfeiriodd casgliadau allweddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at daliadau iawndal fel a ganlyn:

'Cafodd ffermwyr bron i £1,400 miliwn mewn iawndal a thaliadau eraill ar gyfer eu hanifeiliaid a laddwyd. Cynyddodd gwerth anifeiliaid a aseswyd deirgwaith yn fwy yn ystod yr argyfwng, a, heb unrhyw farchnadoedd gweithredol, nid oedd gan yr Adran fframwaith cyfeirio eglur er mwyn asesu neu ddylanwadu ar y prisiannau y talwyd iawndal yn unol â hwy. Caniataodd yr Adran i'r rhai a allai gael iawndal ddewis a phenodi'r priswyr. Yn y dyfodol, mae angen i systemau iawndal i ffermwyr ar gyfer anifeiliaid a laddwyd reoli'r symiau a dalwyd yn fwy caeth. Mae angen meincnodau gwell ar yr Adran i benderfynu ar y cyfraddau a delir am anifeiliaid pan atelir marchnadoedd dros dro; ac ni ddylai ganiatáu i rai a allai gael iawndal ddewis a phenodi'r priswyr.'

# ATODIAD 2

## Methodoleg a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

### Casglu a chyfuno gwybodaeth am daliadau iawndal a phrisiau marchnad

#### Gwariant y Cynulliad

1 Casglwyd gwybodaeth gennym o system ariannol y Cynulliad Cenedlaethol ar wariant a oedd yn ymwneud â thwbercwlosis buchol yn y meysydd canlynol, ar gyfer blynyddoedd ariannol 1998-99 i 2002-03:

- taliadau iawndal;
- refeniw achub;
- costau prisio; a
- costau cludo.

#### Taliadau Iawndal

2 Cawsom afael ar y taenlenni cofnodion ariannol o dair swyddfa'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd rhwng 1998-2002. Canolbwyntiodd ein dadansoddiad ar bob prisiant o 1 Ionawr 1999 (dechrau'r flwyddyn galendr lawn gyntaf ar ôl i iawndal fod yn seiliedig ar werth llawn yn y farchnad heb uchafbris) hyd at 11 Hydref 2002.

3 Roedd y taenlenni cofnodion ariannol yn cynnwys gwybodaeth am daliadau iawndal ar gyfer pob anifail ym mhob blwyddyn. Roedd ffurf y taenlenni yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a rhwng swyddfeydd. O ganlyniad gwnaethom ymarfer cynhwysfawr er mwyn cyfuno a safoni'r taenlenni amrywiol yn un gronfa ddata a oedd yn cynnwys un cofnod unffurf ar gyfer pob anifail a laddwyd ac y talodd y Cynulliad iawndal amdano.

4 Yn ogystal, nid oedd y taenlenni yn cynnwys amryw ddarnau hanfodol o wybodaeth, megis statws masnachol neu statws pedigri pob anifail. Er mwyn sicrhau y byddem yn gallu cynnal dadansoddiad ystyrlon, roedd angen i ni gasglu'r wybodaeth hon, a oedd ond ar gael ar y ffeiliau papur. Canolbwyntiodd ein dadansoddiad ar anifeiliaid a oedd â'u dyddiad prawf ym mlynyddoedd calendr 2000 a 2002 (roedd 2001 yn flwyddyn abnormal oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau). Gyda chymorth staff y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, casglwyd gwybodaeth gennym o'r ffeiliau papur er mwyn nodi statws pedigri neu statws masnachol pob un o'r 5,081 o anifeiliaid a oedd â dyddiadau prawf yn ystod y blynyddoedd hynny.

5 Gwnaed ymarfer casglu data ychwanegol ar gyfer anifeiliaid pedigri, a brofwyd yn 2002, o swyddfa'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghaerfyrddin. Nododd yr ymarfer hwn y gymdeithas frîd y cofrestrodd yr anifail â hi a dyddiad y dystysgrif pedigri. Canolbwyntiwyd ar swyddfa Caerfyrddin, gan fod y rhan fwyaf o'r anifeiliaid pedigri a brisiwyd gennym yn 2002 yn dod o'r ardal honno, ond hefyd gan mai hon oedd yr unig swyddfa a gasglai gopïau o dystysgrif pedigri'r anifail yn rheolaidd a'i chadw ar ffeil. Yn ogystal, ar gyfer anifeiliaid a gofrestrwyd gyda Holstein UK (sef y rhan fwyaf o anifeiliaid pedigri o Gaerfyrddin) casglwyd gwybodaeth am statws yr anifail (ASR, BSR neu bedigri llawn) a'i ddosbarthiad (lle roedd perchennog yr anifail wedi talu'r gymdeithas i ddosbarthu'r anifail).

6 Roedd y taenlenni'n seiliedig ar flynyddoedd calendr, yn hytrach nag ar flynyddoedd ariannol system ariannol y Cynulliad. Cododd cymhlethdod arall am fod un o swyddfeydd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol wedi cofnodi pob achos a oedd yn ymwneud â fferm benodol ym mlwyddyn gofnodion yr achosion cyntaf (er enghraifft pe bai achosion wedi ymddangos gyntaf ar fferm yn 1999, ac wedi ymddangos drachefn yn 2000 a 2001, byddai'r anifeiliaid hynny yn ymddangos ar gofnod 1999). O ganlyniad, gosodwyd anifeiliaid mewn blynyddoedd calendr gennym gan ddefnyddio blwyddyn eu dyddiad prawf. Pan oeddem yn disgrifio prisiannau cyfartalog, yn 2002 er enghraifft, roeddem yn cyfeirio at anifeiliaid a brofwyd yn 2002. Fel arfer cynhelir prisiannau o fewn bythefnos i ganlyniad y prawf.

7 Gan fod rhai prisiannau yn arbennig o uchel, gwnaethom ddadansoddiad sensitifrwydd ar brisiannau, gan archwilio'r effaith ar y cymedr ar ôl hepgor y 5 cant uchaf ac isaf o brisiannau, a chan ddefnyddio cyfartaledd canolrif yn hytrach na chyfartaledd cymedr. Roedd y cyfartaledd masnachol yn sefydlog iawn ac nid effeithiwyd fawr ddim arno drwy hepgor y pump y cant uchaf ac isaf o brisiannau, na thrwy ddefnyddio canolrif yn hytrach na chymedr. Fodd bynnag, pump y cant oedd y cyfartaledd pedigri. Y canolrif pedigri oedd £2,180. Er ei fod yn is na'r cymedr o £2,641, roedd hyn yn parhau i fod dipyn yn uwch na phrisiau cyfartalog y farchnad ar gyfer anifeiliaid pedigri a ddangosir yn Ffigur 10. Er nad oeddem yn gallu cynhyrchu canolrif ar gyfer data pedigri gwaelodlin y farchnad, nid yw sensitifrwydd y cymedr pedigri i hepgor y prisiannau uchaf ac isaf yn newid y ffaith allweddol bod prisiannau iawndal dipyn yn uwch na phrisiau gwaelodol y farchnad.

**Prisiau marchnad ar gyfer anifeiliaid iach**

8 Gwnaed ymarfer cynhwysfawr gennym er mwyn canfod prisiau gwaelodol anifeiliaid iach yn y farchnad, gan gynnwys rhai masnachol a phedigri. Oherwydd anhawster cynhyrchu un taliad iawndal 'cyfartalog', casglwyd gwybodaeth o amryw o ffynonellau er mwyn darparu nifer o ddangosyddion gyda'r bwriad o nodi patrwm cyffredinol.

9 Yna cymharwyd yr amrywiaeth hon o ddangosyddion o brisiau gwaelodol yn y farchnad â thaliadau iawndal cyfartalog. Gwnaed y dadansoddiad ar lefel uchel, gan ystyried yr holl anifeiliaid a brisiwyd, yn hytrach na cheisio archwilio prisiannau anifeiliaid unigol. Disgrifir y tybiaethau a'r dulliau a ddefnyddiwyd yn llawn yn Atodiad 3.

**Dilysu ein canfyddiadau gan brisiwr ymgynghorol**

10 Cyflogwyd prisiwr amaethyddol ymgynghorol gennym er mwyn ein cynghori ynghylch lefelau iawndal a phrisiau gwaelodol y farchnad. Lleolwyd y prisiwr y tu allan i Gymru, ac roedd yn gymrawd o Gymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol ac yn Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Roedd gan ein hymgynghorydd dros ddeg ar hugain o flynyddoedd o brofiad mewn prisio da byw. Darparodd ein hymgynghorydd gyngor ar:

- lefelau taliadau iawndal;
- prisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid masnachol a phedigri;
- y broses o brisio anifeiliaid â thwbercwlosis buchol; ac
- ein hadroddiad drafft.

## Adolygiad o ddogfennau

11 Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennau gennym, yn seiliedig ar chwiliad electronig o amryw o ffynonellau gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys sylw diweddar yn y wasg, cwestiynau yn y Cynulliad a gwrandawiadau pwyllgor, ymchwil academaidd, sylw gan y Senedd a llywodraethau a gweinyddiaethau eraill a ddatganolwyd.

## Ymchwil ansoddol ar effaith achosion o dwbercwlosis ar ffermwyr

12 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ansoddol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effaith achosion o dwbercwlosis buchol ar ffermwyr a'u cymunedau lleol. Cynhaliwyd:

- grŵp ffocws ffermwyr;
- astudiaethau achos o brofiadau tair fferm unigol; a
- cyfweliadau lled strwythuredig.

## Grŵp ffocws ffermwyr

13 Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda deg o ffermwyr o orllewin Cymru, yr effeithiwyd ar ei ffermydd gan dwbercwlosis buchol. Rydym yn ddiolchgar i NFU Cymru am drefnu aelodaeth y grŵp ffocws, nad oedd yn cynnwys aelodau NFU yn unig. Ystyriodd y grŵp ffocws y pedwar pwnc canlynol:

- effaith achosion o dwbercwlosis ar fferm;
- trefniadau ar gyfer prisio anifeiliaid a thalu iawndal;
- yswiriant yn erbyn achosion o dwbercwlosis; a
- mesurau ataliol i leihau risgiau twbercwlosis;

## Astudiaethau achos o ffermydd unigol

14 Ar ôl cynnal y grŵp ffocws ymwelsom â thair fferm yr effeithiwyd arnynt gan dwbercwlosis er mwyn cael gwybodaeth fanwl am y fferm benodol. Roedd hyn yn sail i'r astudiaethau achos a ymddangosodd yn rhan 2 yr adroddiad. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r ffermwyr am gymryd rhan.

## Cyfweliadau lled strwythuredig

15 Cynhaliwyd cyfweliadau ag uwch swyddogion NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas Busnes Tir a Gwlad ynghylch twbercwlosis buchol a threfniadau ar gyfer talu iawndal i ffermwyr. Cyfwelwyd â phrisiwyr a oedd yn ymwneud â phrisiadau twbercwlosis ym mhob un o dair ardal y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru. Buom yn siarad hefyd â Chadeirydd Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru, a Chadeirydd is-bwyllgor arwerthwyr da byw Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol.

## Cyfweliadau â swyddogion allweddol yn y Cynulliad, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a Defra

16 Cyfwelwyd â swyddogion allweddol yn is-adran Iechyd Anifeiliaid y Cynulliad. Ymwelsom hefyd â phob swyddfa Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru, gan gyfweld â:

- y tri Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol;
- prif Swyddogion Milfeddygol TB;
- Swyddogion milfeddygol a oedd yn cynnal prisiannau;
- Swyddogion Iechyd Anifeiliaid a aeth yng nghwmni priswyr i wneud prisiannau; a
- staff a oedd yn rhan o'r broses o weinyddu prisiannau a thaliadau iawndal.

Cyfwelwyd hefyd â swyddogion allweddol Defra o fewn ei His-adran Iechyd Anifeiliaid, tîm twbercwlosis, swyddogaeth Archwiliad Mewnol a'i ymgynghorydd milfeddygol ar dwbercwlosis.

## Casglu gwybodaeth am wledydd a rhanbarthau cymharydd

17 Cawsom wybodaeth am drefniadau ar gyfer talu iawndal am dwbercwlosis mewn gwledydd a rhanbarthau eraill. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar Ogledd Iwerddon a Dyfnaint, gan fod gan y naill a'r llall yr un arian cyfred â Chymru, a chan eu bod yn gweithredu yn fras o dan yr un trefniadau. Ymwelsom â'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn Nyfnaint, gan gasglu data am daliadau iawndal, a chyfweld â swyddogion allweddol. Casglwyd gwybodaeth o bell hefyd am drefniadau iawndal yn yr Eidal, Gweriniaeth Iwerddon a Seland Newydd, yn ogystal â gwybodaeth am y trefniadau iawndal gwahanol sydd ar waith ar gyfer BSE a brwselosis.

## Sefydliadau perthnasol eraill

18 Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am anifeiliaid pedigri, yn arbennig Holstein Friesians, ymwelsom â phencadlys Holstein UK a chyfweld â'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Swyddfa. Darparodd Holstein UK wybodaeth ychwanegol am sampl o gant o anifeiliaid yr oedd eu tystysgrifau pedigri yn ôl-ddyddio'r prawf twbercwlosis. Darparodd Holstein UK wybodaeth ychwanegol hefyd ynghylch lefelau cofrestru yng Nghymru.

19 Daeth yn amlwg hefyd bod yswiriant yn fater allweddol, nid yn unig ar gyfer ffermwyr a oedd yn wynebu achosion o dwbercwlosis buchol, ond hefyd er mwyn dysgu sut mae'r sector preifat yn rheoli taliadau ar dwbercwlosis a pholisïau da byw cyffredinol. Cyfwelwyd â dau uwch yswiriwr da byw mewn dau o'r darparwyr yswiriant da byw mwyaf yng Nghymru.

# ATODIAD 3

## Ein methodoleg ar gyfer cyfrifo prisiau gwaelodol y farchnad

1 Canolbwyntiodd ein dadansoddiad o brisiau gwaelodol y farchnad ar flynyddoedd calendr 2000 a 2002. Cyfyngwyd ar ein dadansoddiad gan y wybodaeth a oedd ar gael, gwybodaeth a oedd yn amherffaith. Mae'r adran hon yn disgrifio'r ffordd yr ydym wedi casglu gwybodaeth ynghylch prisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid masnachol a phedigri.

### Anifeiliaid masnachol

2 Ein ffynhonnell gyntaf o wybodaeth am brisiau gwartheg masnachol oedd gwybodaeth am werthiant gwartheg masnachol gwirioneddol gan Adran Economeg ac Ystadegau Defra a'r Comisiwn Cig a Da Byw. Ar gyfer 2000, roedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer Cymru a Lloegr wedi eu cyfuno yn unig, ond nid ar wahân ar gyfer Cymru. Rhannwyd data 2000 rhwng anifeiliaid llaeth ac eidion, gan gwmpasu pob marchnad fasnachol yng Nghymru a Lloegr. Dosbarthwyd anifeiliaid llaeth ac eidion fel naill ai o safon gyntaf neu ail safon. Dim ond data ar brisiau misol cyfartalog oedd ar gael, felly dim ond cyfartaledd o gyfartaleddau y gallem ei gynhyrchu, yn hytrach na gwir gyfartaledd yn seiliedig ar gyfanswm yr holl werthiant wedi ei rannu gan nifer yr anifeiliaid a werthwyd. Darparon ni brisiau llaeth a chig eidion ar wahan, er na chaniataodd ein gwybodaeth ar brisiadau twbercwlosis i ni rannu anifeiliaid yn anifeiliaid masnachol cig eidion a llaeth. Bu defnyddio prisiau cig eidion a llaeth ar wahan yn fodd ehangu amrywiaith o ddangosyddion prisiau masnachol ar y farchnad.

> **Gwartheg eidion**
>
> Cyfyngedig oedd gwybodaeth Defra am anifeiliaid eidion, gan mai dim ond gwybodaeth am anifeiliaid stôr hyd at ddwy flwydd oed a gadwyd gan Defra. O ganlyniad roedd y prisiau cyfartalog, sef £302 ar gyfer 2000 a £412 ar gyfer 2002, yn is na'r cyfartaledd ar gyfer anifeiliaid bridio. Gan nad oedd y wybodaeth hon ar gael, rhoddodd ein hymgynghorydd amcangyfrif i ni y byddai anifail eidion sugno cyffredin wedi'i ddiddyfnu ac yn gyflo wedi costio tua £650 yn y farchnad. Mae'r ddau werth dipyn yn is na gwerth yr anifeiliaid a brisiwyd at ddibenion iawndal am dwbercwlosis buchol.

3 Rhwng 2000 a 2002, newidiodd Defra ei ffordd o gofnodi prisiau'r farchnad. Yn 2002 roedd prisiau ar gael ar gyfer Cymru a Lloegr wedi eu cyfuno, yn ogystal ag ar wahân ar gyfer Cymru. Roedd y data yn cynnwys uchafswm a lleiafswm y prisiau a dalwyd, yn ogystal â niferoedd y mathau o anifeiliaid a werthwyd. O ran anifeiliaid llaeth, ni chofnodwyd unrhyw werthiant yng Nghymru ar ôl mis Awst 2002. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2002, defnyddiwyd y prisiau cyfartalog ar gyfer gwartheg godro a gofnodwyd yn ffigurau Defra ar gyfer Cymru a Lloegr. Cyfunwyd yr holl gategorïau o anifeiliaid llaeth ac eidion i gael cyfartaledd cyffredinol ar gyfer anifeiliaid llaeth.

4 Nododd y ffermwyr y buom yn cyfarfod â hwy nad gwerthiannau yn y farchnad fasnachol yw'r cymharydd mwyaf priodol ar gyfer prisiannau iawndal, gan mai anaml y mae ffermwyr yn gwerthu eu hanifeiliaid gorau. Yn wir, ar gyfer ffermwyr llaeth, mae'n bwysig cadw'r anifeiliaid gorau ar gyfer godro a bridio. O ganlyniad mae ffermwyr yn credu bod arwerthiannau gwasgaru yn gymharydd mwy priodol ar gyfer anifeiliaid a laddwyd oherwydd twbercwlosis. Mae'r blwch ar ôl paragraff 3.6 yn rhoi esboniad llawn o arwerthiannau gwasgaru. Cawsom wybodaeth am arwerthiannau gwasgaru drwy gynnal chwiliad electronig o'r ddau brif gyfnodolyn ffermio a dadansoddi adroddiadau ar 29 o arwerthiannau yn 2000 (3,232 o anifeiliaid), a 40 o arwerthiannau (5,780 o anifeiliaid) yn 2002.

5 Dibynnodd ein dadansoddiad ar yr adroddiad a ddarparwyd gan y cyfnodolion ffermio. Ambell waith eglurodd yr adroddiad bod yr arwerthiant dan sylw yn cynnwys anifeiliaid pedigri yn unig. Dim ond lle roedd hyn yn hollol eglur y gwnaethom addasu'r pris cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol drwy dynnu anifeiliaid o arwerthiannau lle roedd yn amlwg mai anifeiliaid pedigri oedd pob un o'r anifeiliaid a werthwyd yn yr arwerthiant. Drwy hyn felly cawsom ffigur cyfartalog ar gyfer anifeiliaid masnachol a werthwyd mewn arwerthiannau gwasgaru. O ystyried ei bod yn amlwg bod arwerthiannau eraill yn cynnwys cymysgedd o anifeiliaid masnachol a phedigri, gallai presenoldeb yr anifeiliaid pedigri fod wedi chwyddo ein cyfartaledd ar gyfer arwerthiannau gwasgaru masnachol. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y ffaith y gall arwerthiannau gwasgaru gynnwys cyfran o anifeiliaid cymharol wael nad ydynt yn gynhyrchiol mwyach wrthbwyso'r ffigur hwn; ni fyddai anifeiliaid o'r fath yn cael eu gwerthu drwy farchnadoedd fel arfer.

## Anifeiliaid pedigri

6 Canolbwyntiodd ein dadansoddiad o wybodaeth am werthiannau marchnad anifeiliaid pedigri hefyd ar flynyddoedd calendr 2000 a 2002. Casglwyd cryn dipyn o wybodaeth ychwanegol ynghylch yr anifeiliaid pedigri a brisiwyd at ddibenion talu iawndal twbercwlosis yn yr ardal a gwmpaswyd gan Wasanaeth Milfeddygol Gwladol Caerfyrddin yn 2002, megis eu statws pedigri (ASR, BSR neu bedigri llawn) a'u dosbarthiad os cawsant eu dosbarthu gan y gymdeithas fridio.

7 Roedd gennym dair prif ffynhonnell wybodaeth ar arwerthiannau marchnad pedigri:

- chwiliwyd drwy wefannau amryw o fridiau pedigri a chasglu gwybodaeth am adroddiadau arwerthiant, gan gynhyrchu cyfartaledd cyffredinol ar gyfer nifer o fridiau pedigri ar gyfer 2000 a 2002;
- cynhaliwyd chwiliad electronig o'r ddau brif gyfnodolyn ffermio yn 2000 a 2002 er mwyn casglu gwybodaeth am arwerthiannau anifeiliaid Holstein Friesian (y prif frîd pedigri yng Nghymru);
- Darparodd Holstein UK nifer fach o adroddiadau o arwerthiannau gwasgaru buches bedigri gyfan, a dywedasant wrthym mai dyna oedd haen uchaf y farchnad.

Cyfrifwyd y cyfartaledd cyffredinol ar gyfer pob brîd o'r data canlynol:

**Cyfartaledd Pedigri Pob Brîd 2002**

| Brîd | Nifer yr anifeiliaid | Cyfanswm y gwariant | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Holstein Friesian | 4,542 | £5,543,603 | £1,220 |
| Limousin | 976 | £2,294,395 | £2,351 |
| Welsh Black | 283 | £211,255 | £746 |
| Charolais | 1,321 | £3,630,390 | £2,748 |
| **CYFANSWM** | **7,122** | **£11,679,643** | **£1,640** |

**Cyfartaledd Pedigri Pob Brîd 2000**

| Brîd | Nifer | Cyfanswm | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Holstein Friesian | 3,759 | £3,734,691 | £994 |
| Limousin | 1,821 | £3,019,613 | £1,658 |
| Welsh Black | 249 | £145,987 | £586 |
| Charolais | Dim gwybodaeth | Dim gwybodaeth | Ddim yn gymwys |
| **CYFANSWM** | **5,829** | **£6,900,291** | **£1,184** |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

8 Crynhoir ein holl wybodaeth am yr holl werthiannau Holstein Friesian yn y tabl uchod. Mae'r ffigurau ar gyfer Holstein Friesian yn cynnwys ffigur ar gyfer yr anifeiliaid hynny a werthwyd yn arwerthiannau gwasgaru buchesi gorau'r flwyddyn, a ddarparwyd gan Holstein UK (gweler isod). Gwnaed hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfartaledd cyffredinol yn cael ei leihau drwy hepgor y prisiau gwerthu ar gyfer yr anifeiliaid gorau.


9 Defnyddiwyd y wybodaeth am werthiannau'r anifeiliaid a werthwyd mewn arwerthiannau gwasgaru buchesi pedigri Holstein Friesian er mwyn dangos prisiau haen uchaf y farchnad ar gyfer anifeiliaid Holstein Friesian. Bu Holstein UK mor garedig â darparu gwybodaeth am arwerthiannau yr oeddynt yn nodi a adlewyrchai haen uchaf y farchnad bedigri. Ar gyfer 2002, darparodd Holstein UK wybodaeth am naw arwerthiant lle gwerthwyd 1,331 o anifeiliaid am bris o £1,654 ar gyfartaledd. Ar gyfer 2000, darparodd wybodaeth am saith arwerthiant lle gwerthwyd 1,031 o anifeilaid am bris o £1,159 ar gyfartaledd.

10 Mae Holstein UK yn cynnal un arwerthiant y flwyddyn, sy'n cynnwys anifeiliaid gorau'r brîd. Yn arwerthiant arbenigol y gymdeithas yn 2002 gwerthwyd 75 o anifeiliaid am £3,534 ar gyfartaledd. Fodd bynnag, o'r 37 o arwerthiannau eraill a archwiliwyd gennym, nid oedd y cyfartaledd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer anifeiliaid a laddwyd oherwydd twbercwlosis buchol, a dim ond mewn chwech ohonynt roedd cyfartaledd dros £2,000.

# ATODIAD 4


## Cymhariaeth ranbarthol o lefelau iawndal 2000 a 2002

**Dadansoddiad rhanbarthol o brisiannau masnachol 2000 a 2002**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

**Dadansoddiad rhanbarthol o brisiannau pedigri 2000 a 2002**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

# ATODIAD 5

## Cymhariaeth o lefelau iawndal 2000 a 2002 a phrisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid masnachol

| Gwybodaeth am brisiau'r farchnad fasnachol | Pris 2000 ar gyfartaledd | Pris 2002 ar gyfartaledd | % newid o ddata 2000 |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth Defra am arwerthiannau marchnad | Dim ffigurau ar wahân ar gael ar gyfer Cymru - cyfartaleddau Cymru a Lloegr £532 llaeth a £302 stôr eidion | £600 llaeth, £412 stôr eidion Cymru yn unig<br><br>£539 llaeth, £337 stôr eidion yn unig, Cymru a Lloegr wedi eu cyfuno | 1% llaeth Cymru a Lloegr<br><br>12% stôr eidion yng Nghymru a Lloegr |
| Dadansoddiad o adroddiadau o arwerthiannau gwasgaru a gofnodwyd yn y wasg amaethyddol | £603 | £743 | 23% |
| Uchafswm iawndal briwselosis sy'n daladwy | £433 | £560 | 29% |
| Uchafswm iawndal BSE sy'n daladwy ar gyfer achosion BSE a gadarnhawyd | £424 | £512 | 21% |

| Iawndal tb am anifeiliaid masnachol | Pris 2000 ar gyfartaledd | Nifer yr anifeiliaid yn 2000 | Pris 2002 ar gyfartaledd | Nifer yr anifeiliaid yn 2002 | % gwahaniaeth rhwng pris 2000 a 2002 ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|
| Caernarfon | £830 | 9 | £854 | 295 | 3% |
| Caerfyrddin | £766 | 671 | £1,168 | 1,404 | 52% |
| Caerdydd | £797 | 431 | £1,260 | 888 | 58% |
| Cymru Gyfan | £778 | 1,111 | £1,164 | 2,587 | 50% |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

# ATODIAD 6

## Cymhariaeth o lefelau iawndal 2000 a 2002 a phrisiau gwaelodol y farchnad ar gyfer anifeiliaid pedigri

| Gwybodaeth am brisiau'r farchnad bedigri | Pris 2000 ar gyfartaledd | Pris 2002 ar gyfartaledd | % newid o ddata 2000 |
|---|---|---|---|
| Adroddiadau o Arwerthiannau Holstein (y wasg ffermio a Holstein UK) | £994 | £1,220 | 23% |
| Arwerthiannau Holstein (anifeiliaid 'gorau' a werthwyd yn arwerthiannau gwasgaru buches gyfan Holstein Friesian - gwybodaeth a ddarparwyd gan Holstein UK | £1,159 | £1,654 | 43% |
| Pris cyfartalog y data cyfunedig ar gyfer pedwar brid | £1,184 | £1,640 | 39% |

| Iawndal tb am anifeiliaid pedigri | Prisiant 2000 ar gyfartaledd | Nifer yr anifeiliaid yn 2000 | Prisiant ar gyfartaledd yn 2002 | Nifer yr anifeiliaid yn 2002 | % newid o ddata 2000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Caernarfon (pob brîd) | Dim pedigriau yn 2000 | 0 | £2,323 | 39 | NA |
| Caerdydd (pob brîd) | £1,992 | 147 | £2,873 | 317 | 44% |
| Caerfyrddin (pob brîd) | £1,256 | 64 | £2,567 | 816 | 104% |
| Cymru Gyfan | £1,769 | 211 | £2,641 | 1172 | 49% |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

# ATODIAD 7

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Adweithydd | Anifail sy'n adweithio i'r prawf croen, gan nodi bod twbercwlosis buchol yn bresennol. |
| Adweithydd amhendant | Anifail sy'n adweithio i'r prawf croen ond ddim yn ddigonol i gael ei ystyried fel adwaith cadarnhaol. Os bydd anifail yn profi'n amhendant ar ôl tri phrawf yn olynol, caiff ei ystyried yn adweithydd. |
| Anifail masnachol | Ystyrir bod anifail yn fasnachol os nad yw wedi'i gofrestru â chymdeithas frîdio fel anifail sydd â statws pedigri. |
| Anifail pedigri | Anifeiliaid a gofrestrir fel rhai pedigri gyda'r gymdeithas fridio briodol. Mae dyfarnu statws pedigri yn gweithredu o dan wahanol gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. |
| Arwerthiant gwasgaru | Gwerthu holl asedau fferm, yn aml pan fo ffermwr yn marw, yn ymddeol neu'n symud o'r diwydiant ffermio. Un o'r prif asedau a werthir mewn arwerthiant gwasgaru yw da byw. |
| ASR | Ystyr ASR yw adran A Cofrestr Ategol Holstein UK. Dyma'r cam cyntaf o broses tair cenhedlaeth er mwyn cyrraedd statws pedigri llawn. Mae ASR yn cwmpasu anifeiliaid sydd â phedigri hyd at 50 y cant. |
| Brwselosis | Clefyd heintus yw brwselosis a achosir gan bacteriwm y genws Brucella. Trosglwyddir y bacteria hyn ymysg anifeiliaid yn bennaf, ac maent yn achosi clefyd mewn nifer o fertebratiaid gwahanol. Gall pobl gael eu heintio drwy ddod i gysylltiad ag anifeiliaid neu gynnyrch anifeiliaid a halogwyd â'r bacteria hyn. Mewn pobl gall brwselosis achosi amrywiaeth o symptomau sy'n debyg i ffliw a gall gynnwys twymyn, chwysu, pen tost, poenau yn y cefn, a gwendid corfforol. |
| BSR | Ystyr BSR yw adran B Cofrestr Ategol Holstein UK. Dyma'r ail gam o broses tair cenhedlaeth er mwyn cyrraedd statws pedigri llawn. Mae BSR yn cwmpasu anifeiliaid sydd â phedigri hyd at 75 y cant. |
| Cerdyn safonol | Ystod safonol o brisiannau a roddwyd i ffermwyr hanner ffordd drwy argyfwng clwy'r traed a'r genau. Roedd prisiannau o'r fath ar gael yn lle'r broses o brisio anifeiliaid yn unigol, ac fe'u bwriadwyd i gyflymu'r broses o ladd anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt. |
| Clefyd estron | Dosberthir clefyd estron fel Rhestr A gan Office International des Ipizooties (Mudiad Iechyd Anifeiliaid y Byd). Gall clefydau o'r fath ledu'n gyflym ac yn helaeth ac mae iddynt ganlyniadau mawr o ran iechyd y cyhoedd, masnach anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid ryngwladol a ffactorau economaidd-gymdeithasol. Ymhlith enghreifftiau o glefydau o'r fath mae clwy'r traed a'r genau a thwymyn y moch clasurol. |
| Clefyd hysbysadwy | Mae clefyd hysbysadwy yn glefyd a enwir yn adran 88 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 neu Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf honno. O dan adran 15(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i unrhyw un y mae anifail yr effeithiwyd arno yn ei feddiant, neu anifail yr amheuir bod ganddo un o'r clefydau, hysbysu'r awdurdodau cyn gynted ag y bo modd, fel arfer y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol. |
| Colled canlyniadol | Colledion a ddioddefir gan ffermwyr oherwydd achosion o dwbercwlosis buchol. Mae colledion o'r fath yn ychwanegol at werth cyfalaf anifail, megis colli incwm, a chostau ychwanegol sy'n deillio o'r achosion, megis llafur, porthiant a ffioedd milfeddygol. |

| | |
|---|---|
| Cyfyngiadau symud | Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ar ffermydd ac oddi arnynt oherwydd nifer yr achosion o glefyd. Nod cyfyngiadau symud yw atal clefyd rhag lledaenu ymhellach drwy symud gwartheg. |
| Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru | Corff proffesiynol sy'n cynrychioli arwerthwyr da byw yng Nghymru. |
| Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol | Cymdeithas broffesiynol arbenigol genedlaethol sy'n cynrychioli dros 2,000 o briswyr amaethyddol a gwledig. |
| Cymrodeddu | Pan nad yw ffermwr a phrisiwr neu briswyr yn gallu cytuno ar werth ar gyfer anifail i'w ladd, gellir cyfeirio'r achos at gymrodeddwr. Mae hon yn ffordd o gael prisiant annibynnol gan brisiwr a enwebwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae eu prisiant yn gyfrwymol. |
| Cyswllt uniongyrchol | Anifail a fu mewn cysylltiad agos ag adweithydd a gadarnhawyd ac a allai fod wedi cael ei amlygu i dwbercwlosis buchol. |
| Dadansoddiad sensitifrwydd | Ymarfer sy'n dadansoddi sensitifrwydd un newidyn i newidiadau mewn newidyn arall. Er enghraifft archwiliwyd sensitifrwydd prisiannau cyfartalog gwartheg i hepgor y prisiannau uchaf ac isaf. |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. |
| Enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE) | Mae BSE yn glefyd cymharol newydd, a gydnabuwyd ac a diffiniwyd yn y Deyrnas Unedig am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 1986. Clefyd niwrolegol ydyw sy'n cynnwys newidiadau amlwg mewn cyflwr iechyd meddwl, abnormaleddau o ran osgo, symudiad a synhwyrau. Mae'r clefyd clinigol yn parhau fel arfer am sawl wythnos ac yn nodweddiadol mae'n gynyddol waeth ac yn angheuol. |
| Gwartheg llaeth | Anifeiliaid a gedwir neu a gaiff eu bridio at y prif ddiben o gynhyrchu llaeth a chynnyrch llaeth cysylltiedig. |
| Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol | Asiantaeth o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). |
| Gwerth marchnad | Y gwerth y byddai'r anifail wedi ei gyrraedd ar y farchnad agored ar ddiwrnod y prisiant pe na bai wedi ei heintio â thwbercwlosis buchol. |
| Holstein UK | Y gymdeithas fridio ar gyfer gwartheg Holstein a Friesian pedigri yn y DU. |
| Prawf croen | Prawf sy'n cynnwys chwistrellu twbercwlin i mewn i wartheg. Os bydd lwmp yn ffurfio o ganlyniad, gall yr 'adwaith' hwn awgrymu bod twbercwlosis buchol yn bresennol. |
| Prisiant deuol | Mae gan ffermwyr yr hawl i ofyn am brisiant gan brisiwr preifat o'u dewis. Yn ogystal gall y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol benodi prisiwr i'w gynrychioli. Mae'r ddau brisiwr yn cytuno ar brisiant ar gyfer pob anifail. |
| Prisiant swyddog milfeddygol | Gall swyddog milfeddygol brisio nifer fach o anifeiliaid gyda chaniatâd y ffermwr heb fod angen i brisiwr proffesiynol fod yn bresennol. Anifeiliaid masnachol a brisir gan swyddogion milfeddygol fel arfer. |
| Prisiant unigol | Sefyllfa lle mae un prisiwr yn mynychu'r fferm i roi prisiannau ar gyfer gwartheg yr effeithiwyd arnynt gan dwbercwlosis buchol. Enwebir y prisiwr gan y ffermwr. |

| | |
|---|---|
| Treial Krebs | Treial a sefydlwyd yn 1998, a dilyn argymhelliad gan yr Athro Syr John Krebs i gynnal treialon difa moch daear ar hap, er mwyn canfod p'un a oes cysylltiad gwyddonol rhwng moch daear a lledaeniad twbercwlosis buchol ai peidio. Bydd yr adolygiad yn ystyried mesurau rheoli clefyd yn y DU a'r risgiau i iechyd pobl yn fwy cyffredinol. |
| Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig (RICS) | Cymdeithas broffesiynol syrfewyr siartredig, gan gynnwys priswyr amaethyddol. |
| Tâl achub | Refeniw a dderbynnir gan y Cynulliad gan ladd-dai am anifeiliaid, a leddir o ganlyniad i dwbercwlosis buchol, y mae eu cig yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd. |
| Twbercwlosis buchol | Mae twbercwlosis buchol yn glefyd heintus a chyffwrdd-ymledol a achosir gan y bacteriwm Mycobacterium bovis (M.bovis). Fe'i nodweddir gan ddatblygiad twbercylau mewn unrhyw organ o'r corff. |
| Treialon Interfferon Gamma | Treial dwy flynedd sy'n galluogi ffermwyr mewn ardaloedd penodol (gan gynnwys Cymru) i wirfoddoli i gymryd y prawf gwaed Interfferon Gamma yn ychwanegol at y prawf croen. Bwriad y cynllun peilot yw canfod p'un a yw'r prawf ategol hwn yn cadarnhau nad yw'r clefyd yn bresennol yn gyflymach na'r prawf croen yn unig. |
| Vetnet | Y system wybodaeth a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol i fonitro profion twbercwlosis a nifer yr achosion o'r clefyd. |